



HM Government

# **YMATEB COVID-19 – GWANWYN 2021**

Chwefror 2021

CP 398





HM Government

# **YMATEB COVID-19 - SPRINGGWANWYN 2021**

Cyflwynwyd i'r Senedd  
gan y Prif Weinidog  
drwy Orchymyn Ei Mawrhydi

Chwefror 2021



**© Hawlfraint y Goron 2021**

Trwyddedir y cyhoeddiad hwn dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored v3.0 ac eithrio lle nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i [nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3](https://nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3)

Pan fyddwn wedi dynodi unrhyw wybodaeth fel hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael drwy [www.gov.uk/official-documents](http://www.gov.uk/official-documents)

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn atom ni drwy [publiccorrespondence@cabinetoffice.gov.uk](mailto:publiccorrespondence@cabinetoffice.gov.uk)

ISBN 978-1-5286-2431-2

CCS0221065984 02/21

Wedi'i argraffu ar bapur yn cynnwys lleiafswm cynnwys ffibr wedi'i ailgylchu o 75%

Argraffwyd yn y DU gan APS Group ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi

# Cynnwys

|                                                                                   |           |
|-----------------------------------------------------------------------------------|-----------|
| <b>CRYNODEB GWEITHREDOL</b>                                                       | <b>3</b>  |
| <b>1. CYFLWYNIAD</b>                                                              | <b>6</b>  |
| Achosion o amrywiolynnau newydd, pobl yn cael eu derbyn i'r ysbyty a marwolaethau | 6         |
| Effaith ar yr economi a chymdeithas                                               | 8         |
| Amcanion y Llywodraeth                                                            | 11        |
| <b>2. YMATEB GOFAL IECHYD: Y GIG, BRECHLYNNAU A THERAPIWTEG</b>                   | <b>12</b> |
| Cefnogi'r GIG                                                                     | 12        |
| Brechlynnau                                                                       | 13        |
| Cyflwyno cam 1                                                                    | 14        |
| Derbyniad y brechlyn                                                              | 17        |
| Cyflwyno cam 2                                                                    | 19        |
| Effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y brechlyn                                     | 19        |
| Paratoi at ailfrechu                                                              | 21        |
| Strategaeth brechlynnau rhwngwladol                                               | 22        |
| Therapiwteg                                                                       | 23        |
| <b>3. MAP TRYWYDD</b>                                                             | <b>24</b> |
| Egwyddorion dros lacio                                                            | 24        |
| Y Pedwar Prawf                                                                    | 25        |
| Camau'r Map Trywydd                                                               | 27        |
| Cam 1                                                                             | 27        |
| Cam 2                                                                             | 34        |
| Cam 3                                                                             | 37        |
| Cam 4                                                                             | 40        |
| <b>4. CADW POBL YN DDIOGEL AC YMATEB I FYGYTHIADAU</b>                            | <b>46</b> |
| Ymddygiad                                                                         | 46        |
| Profi, Orlhain ac Ynysu                                                           | 48        |
| Ymateb i Amrywiolion sy'n Peri Pryder ac ymyrryd yn lleol                         | 499       |
| Profi: mynd ymhellach                                                             | 50        |

|                                                            |           |
|------------------------------------------------------------|-----------|
| Adeiladu system Profi, Olrhain ac Ynysu ar gyfer y dyfodol | 52        |
| Mesurau ar y ffin                                          | 53        |
| <b>5. CYMORTH ECONOMAIDD A CHYMDEITHASOL</b>               | <b>54</b> |
| Cymorth economaidd                                         | 55        |
| Cymorth i'r rhai mwyaf agored i niwed                      | 55        |
| Cymorth i breswylwyr a staff cartrefi gofal                | 56        |
| GRWPIAU SY'N CAEL EU HEFFEITHIO YN ANGHYMESUR              | 57        |
| <b>6. Y TYMOR HIR</b>                                      | <b>60</b> |
| Trosglwyddo o bandemig i endemig                           | 60        |
| Byw gyda'r feirws                                          | 60        |
| Adeiladu gwytnwch i bandemigau yn y dyfodol                | 60        |
| Arweinyddiaeth ryngwladol                                  | 61        |

# CRYNODEB GWEITHREDOL

1. Prif nod Llywodraeth y DU yw gwarchod bywydau a bywoliaeth dinasyddion ledled Cymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon a Lloegr. Er budd y DU gyfan, mae'r Llywodraeth wedi diogelu mynediad at fwy na 400 miliwn dos o'r brechlyn,<sup>1</sup> wedi sefydlu'r isadeiledd profi mwyaf yn Ewrop, ac wedi darparu lefel o gyllid ariannol na welwyd ei thebyg o'r blaen i fusnesau ac unigolion.
2. Mae'r Ymateb COVID-19 yn sefydlu sut fydd y Llywodraeth yn parhau i ddiogelu a chefnogi dinasyddion ledled y DU ac yn darparu map trywydd allan o'r cyfnod clo cyfredol yn Lloegr. Mae'r Gweinyddiaethau Datganoledig yn sefydlu sut fydd y cyfnod clo yn cael ei lacio yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.
3. Mae brechlynnau wrth galon strategaeth Llywodraeth y DU i reoli COVID-19. Mae'r DU yn trefnu'r rhaglen frechu fwyaf uchelgeisiol mewn hanes. Hyd yn hyn, mae dros 17 miliwn o bobl wedi cael eu brechu ledled y DU.
4. Mae'r Llywodraeth wedi cyflawni ei nod i gynnig dos cyntaf o'r brechlyn erbyn 15 Chwefror i'r rheiny yn y pedair carfan fwyaf bregus a adnabuwyd gan y Cyd-bwyllgor Brechlynnau ac Imiwneiddio (JCVI). Mae hyn yn cynnwys preswylwyr hŷn mewn cartrefi gofal, pobl 70 oed a hŷn, pobl sydd â chyflyrau a fyddai'n eu gadael yn hynod fregus yn glinigol i salwch difrifol a marwolaeth o ganlyniad i COVID-19, a staff ieuchyd a gofal cymdeithasol ar y rheng flaen. Bellach, mae'r GIG wedi dechrau brechu'r carfanau nesaf (carfanau 5 i 9 y JCVI), gan gynnwys oedolion 50 oed a hŷn a phobl y mae eu cyflyrau ieuchyd sylfaenol yn eu gwneud yn fwy tebygol o ddioddef o afiechyd difrifol. Nod y Llywodraeth yw i bawb sy'n 50 oed a hŷn, neu mewn risg, i gael cynnig dos cyntaf y brechlyn erbyn 15 Ebrill, ac i bawb 18 oed a hŷn i gael cynnig eu dos cyntaf erbyn 31 Gorffennaf.
5. Mae llwyddiant y rhaglen frechu, ochr yn ochr â llai o achosion o'r haint a nifer o bobl sy'n cael eu derbyn i'r ysbyty, yn talu ei ffordd i lacio'r cyfyngiadau yn ddiogel a graddol. Bydd brechlynnau yn golygu y bydd llai o bobl yn cael COVID-19 a bod y rheiny sy'n cael eu heintio yn llawer llai tebygol o fynd i'r ysbyty neu farw. Wedi dweud hynny, nid pawb sy'n cael cynnig y brechlyn fydd yn ei dderbyn ac mae rhai grwpiau, megis plant, nad yw'r brechlyn wedi'i awdurdodi ar eu cyfer eto. Hyd yn oed ar ôl cael eu brechu, mae posibilrwydd i bobl gael eu heintio â'r feirws a'i drosglwyddo i eraill. 100%Nid oes yr un brechlyn yn gwbl effeithiol ac fel pob feirws, gall COVID-19 fwtadu. O ganlyniad, wrth i'r cyfnod clo lacio, yn anffodus bydd mwy o achosion, mwy o bobl yn cael eu derbyn i'r ysbyty a mwy o farwolaethau. Bydd y Llywodraeth yn ymgymryd â dull gofalus o lacio'r cyfnod clo, ac yn gwneud hynny'n

<sup>1</sup> <https://www.gov.uk/government/news/uk-government-secures-additional-40-million-doses-of-valneva-vaccine>

seiliedig ar y data er mwyn osgoi cynnydd cyflym yn yr achosion a fyddai'n rhoi pwysau anghynladwy ar y GIG.

6. Mae mwy o frechu yn lleihau'r risg o'r haint yn arwain at afiechyd difrifol neu farwolaeth. Fodd bynnag, yn yr un modd ag afiechydon megis y fflwi, bydd peth risg yn parhau. Wrth i gyfyngiadau cymdeithasol ac economaidd gael eu llacio, bydd yn gynyddol bwysig i bobl ystyried y risgiau iddynt hwy eu hunain, gan ystyried a ydynt a'r bobl maent yn cwrdd â nhw wedi'u brechu neu a oes ganddynt unrhyw fregusrwydd sydd eisoes yn bodoli.
7. Mae'r Llywodraeth wedi cymryd y cyngor gwyddonol gorau gan y Grŵp Cyngori Gwyddonol ar Argyfyngau (SAGE) a'i weithgorau ar gyflymder a threfn ailagor. Mae'r dadansoddiad hwn yn cael ei gyhoeddi gan SAGE i hysbysu'r cyhoedd am y sylfaen wyddonol a thystiolaethol sydd wedi bod yn gymorth i lywio'r map trywydd.
8. Oherwydd lledaeniad gweddol unffurf y feirws ledled y wlad, mae'r Llywodraeth yn bwriadu llacio cyfyngiadau ar yr un pryd ar draws Lloegr gyfan. Mae'r map trywydd yn ceisio cydbwysu iechyd, gan gynnwys iechyd meddwl, ffactorau economaidd a chymdeithasol a sut maent yn cael effaith anghymesur ar grwpiau penodol, yn ogystal â thystiolaeth epidemiolegol.
9. Mae'r map trywydd ym mhennod 3 yn amlinellu pedwar cam i lacio cyfyngiadau. Cyn parhau i'r cam nesaf, bydd y Llywodraeth yn archwilio'r data i asesu effaith y cam blaenorol. Bydd yr asesiad hwn yn seiliedig ar bedwar prawf:
  - a. Y rhaglen frechu yn parhau'n llwyddiannus.
  - b. Y dystiolaeth yn dangos bod brechlynnau yn ddigon effeithiol o ran lleihau'r nifer sy'n cael eu derbyn i'r ysbyty a marwolaethau ymhlith y bobl sydd wedi'u brechu.
  - c. Cyfraddau heintio ddim yn cyflwyno risg o gynnydd cyflym yn y nifer o bobl sy'n cael eu derbyn i'r ysbyty a fyddai'n rhoi pwysau anghynladwy ar y GIG.
  - c. Ein hasesiad o'r risgiau heb ei newid yn sylweddol gan Amrywiolynnau newydd sy'n Peri Pryder.
10. Mae'n cymryd oddeutu pedair wythnos i'r data adlewyrchu effaith y cam blaenorol a bydd y Llywodraeth yn darparu rhybudd o wythnos ychwanegol i unigolion a busnesau cyn gwneud newidiadau. Felly, mae'r map trywydd yn nodi dyddiadau "dim cynharach na" mynegol ar gyfer y camau, sy'n bum wythnos ar wahân. Mae'r dyddiadau hyn yn gwbl amodol ar y data a gallant newid os na fodlonir y pedwar prawf.
11. Wrth i gyfyngiadau gael eu llacio, bydd cynnal arferion da sy'n lleihau lledaeniad yn bwysig, i unigolion a busnesau. Bydd y system Profi, Olrhain ac Ynysu yn parhau i gefnogi gyda llacio'r cyfyngiadau cymdeithasol ac economaidd. Yn ogystal, bydd yn bwysig i adnabod brigiad o achosion lleol ac Amrywiolynnau sy'n Peri Pryder. Mae mesurau cryfion wedi'u sefydlu ar y ffin i liniaru'r risg o gyflwyno achosion newydd ac amrywiolynnau newydd. Lle adnabyddir Amrywiolyn peryglus sy'n Peri Pryder ac sy'n debygol o gyflwyno risg gwirioneddol i'r rhaglen frechu neu iechyd y cyhoedd, bydd y Llywodraeth yn ymgymryd â dull gweithredu hynod ragofalus, gan weithredu'n gyflym i fynd i'r afael â brigiad o achosion. Yn ogystal, bydd y Llywodraeth yn gweithredu'n



gyflym lle mae'r feirws yn cynyddu nes mae'n anodd ei drin neu mae'r GIG mewn risg, gydag ymyrraeth leol yn canolbwyntio ar brofi, cyfathrebu a gorfodi.


12. Wrth i gyfyngiadau lacio a'r economi yn cael ei hailagor yn raddol a diogel, bydd y Llywodraeth yn teilwra'r lefel o gefnogaeth yn ofalus i unigolion a busnesau i adlewyrchu'r amgylchiadau newidiol. Bydd y Gyllideb ar 3 Mawrth yn nodi rhagor o fanylion cefnogaeth economaidd i ddiogelu swyddi a bywoliaethau ledled y DU. Bydd y Llywodraeth yn parhau i ddarparu cefnogaeth i'r bobl fwyaf bregus. Gan gydnabod bod ymweliadau gan deulu a ffrindiau yn hanfodol ar gyfer lles preswylwyr cartrefi gofal o bob oedran, eu teuluoedd a ffrindiau, mae'r map trywydd yn cynnwys mwy o gyfleoedd ar gyfer ymweliadau. Yn ogystal, bydd rhagor o brofion yn cael eu darparu i hwyluso ymweliadau mwy diogel i breswylwyr yn lleoliadau Llety â Chymorth a Gofal Ychwanegol risg uchel. Mae'r Llywodraeth yn cydnabod bod rhai grwpiau o fewn cymdeithas wedi teimlo effaith y pandemig yn waeth, ac mae'n ymrwymedig i fynd i'r afael â goblygiadau hirdymor COVID-19 i'r cymunedau hynny.
13. Dros amser, mae gwyddonwyr yn disgwyl i COVID-19 ddod yn endemig, sy'n golygu y bydd y feirws yn cyrraedd lefel sefydlog, y bydd, gyda gobaith, modd ei rheoli. Bydd brechlynnau - gan gynnwys ailfrechu - yn allweddol i reoli'r pontio o gyflwr pandemig i endemig. Bydd therapiwteg a gwrthfeirysau yn dod yn gynyddol bwysig, ac yn cymryd lle y rhan fwyaf o ymyriadau anfferyllol dros y tymor hir. Yn ogystal, mae'r Llywodraeth yn ymroddedig i ddatblygu gwytnwch ar gyfer unrhyw bandemig arall yn y dyfodol, yn ddomestig ac yn rhyngwladol.

# 1. CYFLWYNIAD


Achosion o amrywiolynnau newydd, pobl yn cael eu derbyn i'r ysbyty a marwolaethau

14. Ar ddiwedd 2020, dechreuodd amrywiolyn newydd a mwy heintus o COVID-19 (B.1.1.7) ledaenu'n gyflym iawn ledled y DU. Ymatebodd y Llywodraeth drwy ailgyflwyno'r gorchymyn Arhoswch Gartref yn y rhanbarthau a oedd wedi'u heffeithio fwyaf, ac yna'n genedlaethol ledled Lloegr. Ymgwymerodd y Gweinyddiaethau Datganoledig â dulliau gweithredu cyffelyb.
15. Ymddengys bod yr amrywiolyn B.1.1.7 wedi cynyddu trosglwyddadwyedd o'i gymharu â'r straen gwreiddiol o COVID-19 ac wedi datblygu'n gyflym i ddod y prif amrywiolyn ledled y DU. Mae'n bosibl i bobl heb symptomau ledaenu'r ddau straen. O ganlyniad, arweiniodd yr amrywiolyn B.1.1.7 at gynnydd pellach mewn achosion, y nifer o bobl yn cael eu derbyn i'r ysbyty a marwolaethau.

**Ffigwr 1: Cyfartaledd treigl 7 diwrnod o achosion, nifer o bobl yn cael eu derbyn i'r ysbyty a marwolaethau yn Lloegr ers 1 Mawrth 2020<sup>2</sup> (Capasiti profi a pholisïau wedi newid ers mis Mai 2020)**



<sup>2</sup> <https://coronavirus.data.gov.uk/details/deaths>. Data hyd at 11 Chwefror 2021.



16. Yn y brig, roedd ysbytai'r GIG yn gofalu am dros 34,000 o gleifion COVID-19 yn Lloegr, oddeutu 80% yn uwch na brig y don gyntaf. O blith y rhain, cafwyd brig o dros 3,700 a oedd ar awyriad mecanyddol.<sup>3</sup> Roedd gallu'r GIG i ddioddef y lefel hon o bwysau yn sgil ymroddiad gweithlu'r GIG. Rhannodd ysbytai adnoddau a chapasiti dros ben drwy gydgyfwrth a rhaglen rhyddhau cyflym a oedd yn defnyddio ysbytai Nightingale a safleoedd eraill, i alluogi cleifion i adael yr ysbyty yn gyflymach. Cefnogodd y sector annibynnol gapasiti'r GIG i gynnal cryn dipyn o ofal cynlluniedig, ond bu rhaid gohirio triniaethau heb fod yn frys i rai cleifion. Yn anffodus, mae'r pwysau hwn wedi cynyddu amseroedd aros.
17. Mae achosion, nifer o bobl sy'n cael eu derbyn i'r ysbyty a marwolaethau wedi gostwng ers i'r cyfnod clo ddechrau. Rhwng 6 a 12 Chwefror, cafodd 1 mewn 115 o bobl brawf positif am COVID-19 yn Lloegr mewn cymhariaeth â brig rhwng 3 a 9 Ionawr pan gafodd 1 mewn 50 brawf positif ar gyfer y feirws. Yng Nghymru, mae hyn yn 1 mewn 125 o bobl, yn yr Alban mae'n 1 mewn 180, ac yng Ngogledd Iwerddon mae'n 1 mewn 105 o bobl.<sup>4</sup> Yn y DU, ar 16 Chwefror, roedd 20,177 yn yr ysbyty gyda COVID-19, i lawr o frig o 39,244 ar 18 Ionawr, ac mae nifer cyfartalog o farwolaethau dyddiol wedi gostwng o uchafbwynt o 1,248 i 494.<sup>5</sup>

<sup>3</sup> <https://coronavirus.data.gov.uk/details/healthcare?areaType=nation&areaName=England>


<sup>4</sup> <https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/healthandsocialcare/conditionsanddiseases/bulletins/coronaviruscovid19infectionsurveys/pilot/12february2021>

<sup>5</sup> <https://coronavirus.data.gov.uk/details/healthcare>, <https://coronavirus.data.gov.uk/details/death>

## Effaith ar yr economi a chymdeithas

18. Er bod y cyfyngiadau dros y 12 mis diwethaf wedi cynorthwyo i reoli'r feirws, maent hefyd wedi cael effaith sylweddol ar yr economi, cymdeithas ac addysg. Mae'r data diweddaraf yn dangos bod economi'r DU wedi lleihau 9.9% yn 2020, wrth i'r pandemig a'r cyfyngiadau iechyd y cyhoedd cysylltiedig fod yn gyfrifol am y gostyngiad blynyddol mwyaf erioed yng nghynnyrch domestig gros y DU.<sup>6</sup> Roedd y cynnyrch domestig gros ym mis Rhagfyr yn parhau i fod 6.3% yn is na lefelau mis Chwefror 2020.

**Ffigwr 2: Cynnyrch Domestig Gros y DU 2019-Rhagfyr 2020<sup>7</sup>**



19. Mae busnesau a'u cyflenwyr yn dioddef drwy orfod cau a chyfyngiadau ar gyswllt cymdeithasol - yn enwedig y diwydiant awyrennau, tafarndai, bwytaï a gwestai, chwaraeon a digwyddiadau, y celfyddydau, adloniant a chynadleddau - a'u cyflenwyr hefyd. Er bod y Llywodraeth wedi darparu dros £280 biliwn o gymorth ariannol ers mis Mawrth 2020, yn anochel mae swyddi wedi'u colli o ystyried her y pandemig na welwyd ei thebyg o'r blaen.<sup>8</sup> Gostyngodd y nifer o gyflogeion ar y gyflogres o 828,000 rhwng mis Chwefror a mis Rhagfyr 2020.<sup>9</sup>
20. Nid yw'r dioddefaint wedi bod yn gyfartal. Mae staff yn y sectorau sydd wedi dioddef fwyaf, megis lletygarwch, yn fwy tebygol o fod yn ifanc, benywaidd, o leiafrif ethnig, ac yn cael cyflog is. Bu i'r gyfradd ddiweithdra ymhlith y rheiny rhwng 18 a 24 oed gynyddu o 10.5% yn y tri mis hyd at fis Chwefror 2020 i 13.2% yn y tri mis hyd at fis

<sup>6</sup> ONS UK Quarterly GDP, Rhagfyr 2020.


<sup>7</sup> <https://www.ons.gov.uk/economy/grossdomesticproductgdp/bulletins/gdpfirstquarterlyestimateuk/octobertodecember2020>

<sup>8</sup> [https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/938052/SR20\\_Web\\_Accessible.pdf](https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/938052/SR20_Web_Accessible.pdf)

<sup>9</sup> ONS, UK Labour Market, Ionawr 2021.

Tachwedd 2020.<sup>10</sup> Cynyddodd y gyfradd ddiweithdra i leiafrifoedd ethnig o 5.8% yn y tri mis hyd at fis Rhagfyr 2019 i 8.5% yn y tri mis hyd at fis Medi 2020.<sup>11</sup>

**Ffigwr 3: Effaith ar ddiweithdra ieuenctid, mis Gorffennaf 2018-2020<sup>12</sup>**



21. Ledled y wlad, mae rhai rhanbarthau wedi dioddef yn fwy nag eraill. Mae swyddi wedi'u colli ym mhob man, ond yn fwy yn Llundain, gorllewin Canolbarth Lloegr a'r de-ddwyrain.<sup>13</sup> Po hiraf y mae'r cyfyngiadau mewn grym, po fwyaf yw'r risg i fusnesau ddod yn ansolfent neu orfod cau'n barhaol.
22. Mae'r niwed i'r gymdeithas yn amlwg yn ffigyrau troseddau treisgar a throseddau cyffuriau: mae'r rhain wedi cynyddu'n uwch na lefelau cyn y pandemig yn ardaloedd difreintiedig. Mae ieuchyd meddwl a lles hefyd wedi dioddef yn ystod y cyfnodau clo, yn ôl COVID-19 Social Study Coleg Prifysgol Llundain. Erbyn hyn, mae lefelau gorbryder ac iselder yn gyson uwch na chyfartaleddau cyn y pandemig.<sup>14</sup> Mae hyn yn cyd-fynd â chyfyngiadau ar bresenoldeb ysgol sydd wedi gwneud niwed difrifol i addysg plant. Erbyn hanner tymor mis Chwefror, mae astudiaethau yn awgrymu y gallai cyfanswm y golled o ddysgu wyneb yn wyneb fod cyfwerth ag oddeutu hanner blwyddyn ysgol, gyda dau draean o flwyddyn arferol yn cael ei cholli os caiff y dychweliad at addysg wyneb yn wyneb mewn ysgolion ei gohirio tan ar ôl y Pasg. Mae cyfyngiadau ar bresenoldeb ysgol hefyd wedi cael effaith ar allu rhieni i weithio, gan fod gofyn iddynt oruchwyllo dysgu o bell ar yr un pryd â gweithio gartref.<sup>15</sup>

<sup>10</sup> ONS, A05 SA: Employment, unemployment and economic inactivity by age group (seasonally adjusted), Ionawr 2021

<sup>11</sup> ONS, A09: Labour market status by ethnic group, Tachwedd 2020


<sup>12</sup> ONS, A05 SA: Employment, unemployment and economic inactivity by age group (seasonally adjusted), Ionawr 2021

<sup>13</sup> ONS, Labour market in the regions of the UK: Ionawr 2021

<sup>14</sup> UCL, COVID-19 Social Survey Week 46-47, 11 Chwefror 2021

<sup>15</sup> Arolwg Parent Ping, Ionawr 2021

**Ffigwr 4: Lefelau Iselder a Gorbryder ymhlith oedolion yn y DU mewn cymhariaeth â chyfartaleddau cyn y pandemig, mis Mawrth 2020 - Ionawr 2021<sup>16</sup>**



23. Mae'r Llywodraeth yn cydnabod yr effaith ar bob gwasanaeth cyhoeddus ac yn cydbwyso'r cyfrwng ac effeithiau hirdymor gyda risgiau uniongyrchol COVID-19 wrth wneud penderfyniadau.
24. Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i wneud beth bynnag sydd ei angen i gefnogi ein gwlad drwy bandemig COVID-19. Bydd y dull cefnogi yn adlewyrchu'r map trywydd, yn teiwra'r lefel o gefnogaeth wrth i'r economi ailagor i adlewyrchu'r amgylchiadau newidiol.
25. Heb ymyriadau ariannol pendant gan Lywodraeth y DU, mae'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (OBR) a Banc Lloegr wedi cadarnhau y byddai'r rhagolwg yn llawer gwaeth.<sup>17</sup> Mae rhagor o fanylion o'r gefnogaeth mae'r Llywodraeth wedi'i rhoi i fusnesau ac unigolion i'w gweld ym mhennod 5.

<sup>16</sup> UCL COVID-19 Social Study: Depression and anxiety 23 Mawrth 2020 - 7 Chwefror 2021.

<sup>17</sup> Bank of England, Monetary Policy Report - Tachwedd 2020. OBR, Economic and fiscal outlook – Tachwedd 2020

## Amcanion y Llywodraeth

26. Mae dull gweithredu'r Llywodraeth yn seiliedig ar yr amcanion canlynol:

- a. **Adfer rhyddid yn gynaliadwy, teg a chyn gynted â phosibl heb roi pwysau anghynaliadwy ar y GIG, ac osgoi cyfnod clo arall.** Bydd y Llywodraeth yn ymgymryd â dull graddol a gofalus i ailagor yn Lloegr, yn seiliedig ar y wyddoniaeth a'r data, gan roi blaenoriaeth i ailddechrau addysgu wyneb yn wyneb yn ysgolion.
- b. **Dyrannu'r brechlyn cyn gynted â phosibl i uchafu amddiffyniadau wrth i gyfyngiadau gael eu llacio.** Po gyflymaf y caiff pobl eu brechu, po isaf yw eu risg o ddatblygu'r math o haint difrifol sy'n gofyn triniaeth mewn ysbyty ac arwain at farwolaeth o bosibl.
- c. **Amddiffyn y cyhoedd a'r GIG drwy gael cynlluniau hirdymor ac effeithiol wrth gefn.** Bydd y Llywodraeth yn sicrhau bod ganddi'r adnoddau i reoli brigiadau o achosion lleol, yn ogystal â'r modd i fynd i'r afael ag Amyrwiolynnau peryglus sy'n Peri Pryder yn gyflym ac effeithiol, yn ddomestig ac ar y ffin, mewn partneriaeth agos â'r Gweinyddiaethau Datganoledig.
- d. **Cynllunio a chyflawni adferiad cenedlaethol.** Wrth i'r wlad adfer o'r argyfwng, mae'r Llywodraeth yn ymroddedig i adeiladu'n ôl yn well, gan gefnogi'r prif wasanaethau cyhoeddus y mae dinasyddion a busnesau yn dibynnu arnynt, a gweithio gyda phartneriaid byd-eang wrth i'r afiechyd newid o gyflwr pandemig i endemig.





31. Bydd y Llywodraeth yn parhau i weithio gyda'r GIG, i sicrhau bod ganddo'r hyn sydd ei angen arno i ymdrin ag effaith COVID-19. Yn ogystal, mae'r Llywodraeth yn ymroddedig i sicrhau bod staff y GIG yn parhau i gael y gefnogaeth emosiynol, seicolegol ac ymarferol gynhwysfawr sydd ei hangen arnynt.
32. Ers yr heriau cyflenwad a logisteg ar ddechrau'r pandemig, mae'r Llywodraeth wedi gwneud cynnydd sylweddol i sicrhau bod digonedd o Gyfarpar Diogelu Personol i staff ar y rheng flaen ledled y DU. Mae oddeutu 32 biliwn eitem o Gyfarpar Diogelu Personol wedi'u prynu<sup>22</sup> ac mae dros 8.4 biliwn wedi'u dosbarthu.<sup>23</sup> O ganlyniad, bydd darpariaeth am ddim o Gyfarpar Diogelu Personol i staff iechyd a gofal cymdeithasol tan o leiaf mis Mehefin 2021, a bydd pentwr stoc cyfwerth ag oddeutu 120 diwrnod o ddefnydd ar lefelau COVID-19 y DU yn rhwyd ar gyfer unrhyw amrywiad yn y galw. Yn ogystal, mae mwy na 70% o gapasiti hirdymor gofynnol ar gyfer Cyfarpar Diogelu Personol (ac eithrio menig) bellach yn cael ei weithgynhyrchu yn y DU, gan greu cannoedd o swyddi. Mae hyn yn cymharu ag 1% ar ddechrau'r pandemig.
33. Bydd y Llywodraeth yn gweithio'n agos â'r GIG i barhau i sicrhau ei fod yn gallu darparu gofal o safon i gleifion COVID-19 a heb fod yn COVID-19 ar gyfer Gaeaf 2021 a thu hwnt, gan adfer perfformiad dewisol hefyd.
34. Yn ogystal, bydd y Llywodraeth yn gweithio gyda'r sector gofal cymdeithasol i ddatblygu a gosod mesurau y dylid eu cynnal mewn lleoliadau gofal preswyl a chymunedol. Bydd hyn yn cynnwys arfer dda a ddatblygwyd yn ystod y pandemig, megis gweithdrefnau Cyfarpar Diogelu Personol, protocolau profi, a chynlluniau glanhau mewn lleoliadau gofal unigol. Bydd y system yn cael cefnogaeth gan awdurdodau lleol a'r Comisiwn Ansawdd Gofal i sicrhau bod gofal o ansawdd a gweithdrefnau diogel atal a rheoli heintiau yn cael eu cynnal.
35. Er mai salwch cymedrol yw COVID-19 i nifer o bobl, i rai, waeth beth yw eu hoedran, gall yr effeithiau barhau yn y tymor hir. Mae'r GIG a sefydliadau partner eisoes yn gweithredu mentrau i gefnogi pobl sydd â symptomau hirhoedlog ar ôl cael eu heintio â COVID-19. Yn ogystal, mae Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Iechyd ac Ymchwil ac Arloesedd y DU wedi cyhoeddi cyllid ar gyfer nifer o astudiaethau uchelgeisiol a fydd yn cynorthwyo'r Llywodraeth i ddysgu mwy am effeithiau hirdymor y feirws, gan gynnwys ymhlith pobl nad ydynt wedi cael triniaeth yn yr ysbyty.<sup>24</sup>

## Brechlynnau

36. Mae brechlynnau bob amser wedi bod wrth galon strategaeth Llywodraeth y DU i reoli COVID-19. Mae'r Llywodraeth yn gweithio gyda'r Gweinyddiaethau Datganoledig i weithredu rhaglen frechu fwyaf uchelgeisiol erioed y DU, gan gynorthwyo i lywio'r ffordd er mwyn llacio cyfyngiadau yn ofalus.

<sup>22</sup> <https://www.gov.uk/government/news/huge-increase-in-uk-personal-protective-equipment-production>

<sup>23</sup> <https://www.gov.uk/government/statistics/ppe-deliveries-england-8-february-to-14-february-2021/experimental-statistics-personal-protective-equipment-distributed-for-use-by-health-and-social-care-services-in-england-8-february-to-14-february-2>

<sup>24</sup> <https://www.nihr.ac.uk/news/185-million-awarded-to-new-research-projects-to-understand-and-treat-long-covid/26895>

37. Y DU oedd y wlad gyntaf yn y byd i roi cymeradwyaeth reoleiddiol i frechlyn COVID-19 a oedd wedi bod dan brawf mewn treialon ar raddfa fawr: awdurdodwyd y brechlyn Pfizer/BioNTech i'w ddefnyddio gan yr Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd ar 2 Rhagfyr 2020.<sup>25</sup> Yn dilyn hyn, cafwyd cymeradwyaeth yn yr un mis i ddefnyddio'r brechlyn AstraZeneca a ddatblygwyd gan Brifysgol Rhydychen<sup>26</sup> a'r brechlyn Moderna ym mis Ionawr 2021.<sup>27</sup> Mae miliynau o ddinasyddion y DU eisoes wedi cael y brechlynnau Pfizer/BioNTech ac AstraZeneca, a bydd y brechlyn Moderna yn cael ei ddyrannu'n hwyrach eleni.
38. Mae'r DU wedi archebu digon o ddosau i frechu poblogaeth yr oedolion cymwys i gyd - cyfanswm o 457 miliwn dos ar draws wyth brechlyn gwahanol.

**Tabl 1: Brechlynnau'r DU a brynwyd a'u statws<sup>28</sup>**

| Brechlyn                                   | Nifer o ddosau                      | Statws                                                                  |
|--------------------------------------------|-------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------|
| <b>Oxford/AstraZeneca</b>                  | 100 miliwn                          | Wedi'i gymeradwyo ac yn cael ei ddyrannu                                |
| <b>Janssen</b>                             | 30 miliwn                           | Data diogelwch ac effeithiolrwydd calonogol yng nghanam rhagarweiniol 3 |
| <b>Pfizer/BioNTech</b>                     | 40 miliwn                           | Wedi'i gymeradwyo ac yn cael ei ddyrannu                                |
| <b>Moderna</b>                             | 17 miliwn                           | Wedi'i gymeradwyo                                                       |
| <b>GlaxoSmithKline/<br/>Sanofi Pasteur</b> | 60 miliwn                           | Cam 1/2 o'r treialon                                                    |
| <b>Novavax</b>                             | 60 miliwn                           | Data diogelwch ac effeithiolrwydd calonogol yng nghanam 3               |
| <b>Valneva</b>                             | 100 miliwn                          | Cam 1/2 o'r treialon                                                    |
| <b>CureVac</b>                             | 50 miliwn<br>(archeb<br>gychwynnol) | Cam 2b/3 o'r treialon                                                   |

## Cyflwyno cam 1

39. Nod y rhaglen frechu yw lleihau salwch, marwolaethau a'r nifer o bobl sy'n cael eu derbyn i'r ysbyty. Ceisiodd y Llywodraeth gyngor gan y JCVI ynghylch pa grwpiau o bobl y dylid eu blaenoriaethu i gael eu brechu. Adnabu'r JCVI naw carfan i'w blaenoriaethu yng Nghanam 1 y rhaglen frechu i leihau'r nifer o farwolaethau - cyfanswm o 32 miliwn i bobl yn y DU - yn seiliedig ar oedran, lleoliad preswyl, galwedigaeth a bregusrwydd clinigol.<sup>29</sup>
40. Mae'r data marwolaethau a'r nifer o bobl sy'n cael eu derbyn i'r ysbyty yn dangos pwysigrwydd blaenoriaethu brechu'r grwpiau hyn. Drwy ddadansoddi marwolaethau

<sup>25</sup> <https://www.gov.uk/government/publications/regulatory-approval-of-pfizer-biontech-vaccine-for-covid-19>

<sup>26</sup> <https://www.gov.uk/government/publications/regulatory-approval-of-covid-19-vaccine-astrazeneca>

<sup>27</sup> <https://www.gov.uk/government/publications/regulatory-approval-of-covid-19-vaccine-moderna>

<sup>28</sup> Tasglu'r Brechlyn

<sup>29</sup> Nid yw'r ffigyrau hyn, a'r ffigyrau yn y tabl isod, yn cynnwys dros 800,000 o bobl a fydd nawr yn cael eu blaenoriaethu i'w brechu ar ôl cael eu hadnabod yn risg uchel drwy fodel rhagfynegi risg QCovid.

COVID-19, canfuwyd bod 88% o farwolaethau yng ngharfanau 1 i 4, gydag 11% arall o'r marwolaethau yng ngharfanau 5 i 9.<sup>30</sup> Mae data diweddar ynghylch y nifer o bobl sy'n cael eu derbyn i'r ysbyty yn dangos bod oddeutu 40% o dderbyniadau i'r ysbyty oherwydd COVID-19 yn gysylltiedig â chleifion 75 oed a hŷn.<sup>31</sup> Mae cyfanswm o oddeutu 75% o'r bobl sy'n cael eu derbyn i'r ysbyty yn gysylltiedig â chleifion 55 oed a hŷn sy'n perthyn i garfanau 1 i 9.<sup>32</sup>

**Tabl 2: Nifer o bobl ym mhob carfan i'w brechu dan flaenoriaethau'r JCVI.<sup>33</sup>**

| Grŵp<br>Blaenoriaeth             | Categori JCVI                                                     | Lloegr (m) | Y DU<br>(m) |
|----------------------------------|-------------------------------------------------------------------|------------|-------------|
| 1.                               | Preswylwyr mewn cartref gofal i oedolion hŷn                      | 0.3        | 0.3         |
|                                  | Gweithwyr Gofal Preswyl                                           | 0.4        | 0.5         |
| 2                                | Pawb 80 oed a hŷn                                                 | 2.8        | 3.3         |
|                                  | Gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol ar y rheng flaen            | 3.2        | 3.8         |
| 3                                | Pawb 75-79 oed                                                    | 1.9        | 2.3         |
| 4                                | Pawb 70-74 oed                                                    | 2.7        | 3.2         |
|                                  | Hynod Fregus yn Glinigol (dan 70 oed)                             | 1.0        | 1.2         |
| Cyfanswm carfan blaenoriaeth 1-4 |                                                                   | ~12m       | ~15m        |
| 5                                | Pawb 65-69 oed                                                    | 2.4        | 2.9         |
| 6                                | Unigolion rhwng 16 oed a 64 oed sydd â chyflyrau iechyd sylfaenol | 6.1        | 7.3         |
| 7                                | Pawb 60-64 oed                                                    | 1.5        | 1.8         |
| 8                                | Pawb 55-59 oed                                                    | 2.0        | 2.4         |
| 9                                | Pawb 50-54 oed                                                    | 2.3        | 2.8         |
| Cyfanswm carfan blaenoriaeth 5-9 |                                                                   | ~14m       | ~17m        |
| Cyfanswm carfan blaenoriaeth     |                                                                   | ~27m       | ~32m        |
| Gweddill y boblogaeth oedolion   |                                                                   | ~18m       | ~21m        |
| Cyfanswm                         |                                                                   | ~44m       | ~53m        |

41. **Bodlonwyd uchelgais y Llywodraeth i gynnig o leiaf un dos o'r brechlyn i bawb yng ngharfanau 1 i 4 y JCVI erbyn 15 Chwefror dau ddiwrnod yn gynnar.** Ar 19 Chwefror, gyda diolch i ymdrechion dyrannu'r GIG, roedd 17.2 miliwn o bobl eisoes wedi cael eu dos cyntaf o'r brechlyn ac roedd 604,885 o bobl wedi cael eu hail ddos

<sup>30</sup> DHSC, UK COVID-19 Vaccine Delivery plan


<sup>31</sup> NHS England, COVID19 Hospital Activity <https://www.england.nhs.uk/statistics/statistical-work-areas/covid-19-hospital-activity/>

<sup>32</sup> NHS England, COVID19 Hospital Activity <https://www.england.nhs.uk/statistics/statistical-work-areas/covid-19-hospital-activity/>

<sup>33</sup> Ar 10 Ionawr 2021, yn seiliedig ar ddata NHSEI ar gyfer Lloegr, wedi'u hallosod i'r DU. DHSC, UK COVID-19 vaccines delivery plan, 11 Ionawr 2021.

ledled y DU.<sup>34</sup> Mae'r DU wedi brechu carfan uwch o'i phoblogaeth nag unrhyw wlad arall yn y G20, yn rhannol oherwydd y penderfyniad i ymestyn y cyfnod rhwng y ddau ddos, gan alluogi'r dosau cyntaf i gael eu dosbarthu'n ehangach.


**Ffigwr 5 - Carfan (%) o'r boblogaeth sydd wedi'i brechu mewn gwledydd cymharol penodol<sup>35</sup>**



<sup>34</sup> Ar 19 Chwefror - <https://coronavirus.data.gov.uk/details/vaccinations>

<sup>35</sup> <https://ourworldindata.org/covid-vaccinations>

**Ffigwr 6 - Cyflwyniad yng ngham 1 i'r dyddiad cyhoeddi, mis Ionawr - Chwefror 2021<sup>36</sup>**



42. Bydd pawb yn cael cynnig eu hail ddos dim mwy na 12 wythnos ar ôl eu dos cyntaf. **Mae hyn yn golygu y bydd y Llywodraeth yn cynnig ail ddos erbyn canol mis Mai i'r rheiny yng ngharfanau 1 i 4 y JCVI sydd wedi cael eu dos cyntaf erbyn canol mis Chwefror.**
43. Mae'r GIG eisoes wedi dechrau cynnig brechlynnau i bobl yng ngharfanau 5 a 6. Mae'r rhain yn cynnwys oedolion 65 a hŷn, pobl y mae eu cyflyrau iechyd sylfaenol yn eu gwneud yn fwy tebygol o ddioddef afiechyd difrifol, a gofawyr di-dâl fel y diffinir hwy yn Llyfr Gwyrdd Iechyd Cyhoeddus Lloegr.<sup>37</sup>
44. **Nod y Llywodraeth yw i bawb 50 oed a hŷn a phobl sydd â chyflyrau iechyd sylfaenol (carfanau 5 i 9) gael cynnig dos cyntaf o'r brechlyn erbyn 15 Ebrill, ac ail ddos erbyn canol mis Gorffennaf.** Ar yr un pryd, mae'r Llywodraeth yn annog y rheiny yng ngharfanau 1 i 4 nad ydynt wedi manteisio ar gynnig y brechlyn i wneud hynny.

## Derbyniad y brechlyn

45. Mae derbyniad uchel y brechlyn yn hanfodol i alluogi llacio'r cyfyngiadau yn ddiogel; bydd pob unigolyn sy'n derbyn y brechlyn yn cynorthwyo i leihau effaith y feirws arno ef ei hun a'r gymdeithas. Dylai pawb sy'n gymwys am frechlyn wneud pob ymdrech i gael eu brechu, ac mae'r dos cyntaf a'r ail yn bwysig.

<sup>36</sup> <https://coronavirus.data.gov.uk/details/vaccinations>. Dechreuodd NHSE gyhoeddi ystadegau brechu dyddiol ar 10 Ionawr 2021

<sup>37</sup> PHE <https://www.gov.uk/government/https://www.gov.uk/government/collections/immunisation-against-infectious-disease-the-green-book>

46. Mae derbyniad dos cyntaf y brechlyn wedi bod yn rhagorol ymhlith y rheiny sy'n 70 oed a hŷn - mwy na 90%. Nod y Llywodraeth yw parhau i weld derbyniad uchel i'r dos cyntaf ac ail drwy bob grŵp oedran ac i bob cymuned fel nad oes neb yn cael ei adael ar ôl, ac i wella amddiffyniad y boblogaeth ar y cyfan. Mae arwyddion cynnar o lefelau derbyn isel y brechlyn mewn grwpiau incwm isel a rhai grwpiau lleiafrifoedd ethnig ac mae'r Llywodraeth yn cymryd camau i fynd i'r afael â hyn. Yn ôl arolygon, mae mwy o betruster gyda'r brechlyn ymhlith cymunedau Du ac Asiaidd, a dyna pam mae angen annog derbyniad yn y grwpiau penodol hyn.<sup>38</sup>
47. Fel y nodwyd yng Nghynllun Derbyn y Brechlyn COVID-19 y DU<sup>39</sup> mae'r Llywodraeth yn cymryd camau i fynd i'r afael â phryderon ynghylch y brechlyn - yn rhannol drwy'r Pwyllgor Cydraddoldeb Brechu, sy'n dwyn ynghyd Cyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd, awdurdodau lleol, sefydliadau gwirfoddol a'r sector ffydd i ddeall a dod o hyd i ffyrdd i oresgyn y rhwystrau penodol sy'n wynebu gwahanol gymunedau. Mae hyn yn cynnwys ymgysylltiad ar lefel leol drwy arweinwyr crefyddol a chymunedol dibynadwy, rhannu enghreifftiau o'r hyn yr ydym yn gwybod sy'n gweithio'n dda yn ardaloedd cyfagos, ac annog ymdrechion ar sail y gymuned i ymdrin â chamwybodaeth ynghylch y brechlyn. Yn ogystal, mae'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, y GIG ac Iechyd Cyhoeddus Lloegr yn darparu gwybodaeth a chynghor ar frechlynnau, ac mae Uned Gwrth-Camwybodaeth y Llywodraeth, dan arweiniad yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn gweithio i fynd i'r afael â chamwybodaeth a gwybodaeth anghywir ynghylch COVID-19.
48. Gall yr ymateb hwn sy'n seiliedig ar y gymuned dynnu ar ddata derbyn manwl gywir a manwl gan y GIG i gyfeirio ymdrechion at le maent eu hangen fwyaf. Caiff y dos cyntaf ac ail a ddyrannir ym mhob rhanbarth yn Lloegr eu cyhoeddi'n ddyddiol; a chaiff y wybodaeth hon ei rhannu ymhellach yn ôl oedran, ethnigrwydd a Phartneriaethau Cynaliadwyedd a Thrawsnewidiadau yn wythnosol. Mae cyfarwyddwyr iechyd y cyhoedd mewn awdurdodau lleol yn cael diweddariadau dyddiol ynghylch derbyniad y brechlyn yn eu hardaloedd, wedi'u rhannu yn ôl ardaloedd bychain (Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Ganol) ac yn ôl ethnigrwydd.
49. Drwy neilltuo £23 miliwn i 60 awdurdod lleol a grwpiau gwirfoddol ledled Lloegr i ariannu rhwydwaith o Hyrwyddwyr Cymunedol, mae'r Llywodraeth yn cynnig rhagor o gefnogaeth i bobl a sefydliadau sy'n gallu cynorthwyo i hybu derbyniad y brechlyn yng nghymunedau.<sup>40</sup>
50. Gan gydnabod y gall hygyrchedd fod yn ffactor, mae'r GIG yn Lloegr yn cefnogi gwaith gwasanaethau brechu lleol i gynnig gwasanaethau hygyrch i bawb - megis model darparu symudol i'r rheiny sy'n gaeth i'r tŷ. Yn ogystal, mae'r GIG yn cymryd camau i hyrwyddo derbyniad y brechlyn ymhlith y rheiny sy'n gofalu am rai o'r bobl fwyaf bregus yn ein cymuned, gan gynnwys staff iechyd a gofal cymdeithasol, ac yn parhau i fonitro effeithiolrwydd y mesurau hyn.

<sup>38</sup> ONS, Opinions and Lifestyle Survey (COVID-19 module), Ionawr 2021

<sup>39</sup> DHSC, UK COVID-19 Vaccine Uptake Plan, 13 Chwefror 2021

<sup>40</sup> <https://www.gov.uk/government/news/community-champions-to-give-covid-19-vaccine-advice-and-boost-take-up>

## Cyflwyno cam 2

51. Bydd oedolion dan 50 oed nad ydynt yn berthnasol i garfanau blaenoriaeth 1 i 9 y JCVI yn cael eu brechlynnau yn ail gam y cyflwyniad. Mae hyn yn golygu oddeutu 18 miliwn o bobl yn Lloegr, a 21 miliwn yn y DU. **Mae'r Llywodraeth yn disgwyl i Gam 2 cyflwyno'r brechlyn ddechrau yng nghanol mis Ebrill a'r nod yw cynnig dos cyntaf o'r brechlyn i bawb 18 oed a hŷn erbyn 31 Gorffennaf.**
52. Yn unol â blaenoriaethau ehangach y Llywodraeth, amcan cam nesaf rhaglen cyflwyno'r brechlyn yw lleihau eto y nifer o bobl sy'n marw, yn mynd yn ddifrifol wael ac yn cael eu derbyn i'r ysbyty. Bydd hyn yn gymorth i warchod y rheiny sydd mewn mwy o risg, lleihau pwysau ar y GIG, a chynorthwyo i ailagor y gymdeithas a'r economi. Yn ogystal, rhaid i'r dull o weithio fod yn rhwydd i'w weithredu a heb fod mor gymhleth nes ei fod yn oedi cyflymder y dyrannu.
53. Mae'r Llywodraeth wedi gofyn i'r JCVI gynghori ar y strategaeth orau i gyflawni'r nod hwn. Bydd cyngor y JCVI yn seiliedig ar y dystiolaeth glinigol, epidemiolegol, gwyddonol ac iechyd y cyhoedd ddiweddaraf. Mae hyn yn cynnwys: ystyried a oes grwpiau sy'n parhau i fod mewn risg uwch o gael eu derbyn i'r ysbyty, yr haint a marwolaeth; ac a yw galwedigaethau neu leoliadau penodol yn cyflwyno mwy o risg.

## Effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y brechlyn

54. Mae Iechyd Cyhoeddus Lloegr wedi astudio effaith brechlyn COVID-19 Pfizer/BioNTech ar haint symptomatig ac asymptomatig, ac ar y nifer o bobl sy'n cael eu derbyn i'r ysbyty a marwolaethau oherwydd COVID-19.<sup>41</sup>
55. Mae'r data yn dechrau dangos yn glir manteision y brechlyn o ran atal haint, atal achosion symptomatig, a lleihau'n sylweddol y nifer sy'n cael eu derbyn i'r ysbyty a marwolaethau ymhlith y rheiny sy'n dangos symptomau. Mae manylion y tair elfen hyn o amddiffyniad wedi'u nodi isod.
56. Yn gyntaf, mae'r brechlyn yn atal pobl rhag cael eu heintio â COVID-19. Mae astudiaethau o weithwyr gofal iechyd yn dangos bod un dos o'r brechlyn Pfizer/BioNTech yn lleihau'r risg o gael y feirws o fwy na 70%. Mae ail ddos yn lleihau'r risg o 15% ychwanegol, sy'n golygu amddiffyniad o hyd at 85% ar ôl dau ddos. Bydd hyn yn gymorth i leihau lledaeniad yr haint yn ysbytai a chartrefi gofal, gan yn y pendraw gynnig mwy o amddiffyniad i'r poblogaethau bregus hyn.
57. Yn ail, mae'r brechlyn yn atal achosion symptomatig o COVID-19 yn y bobl hŷn a oedd yn gymwys am frechiad yn gyntaf. Mae'r data yn awgrymu bod un dos o'r brechlyn Pfizer yn lleihau achosion symptomatig o rhwng 50% a 70% yn y bobl 70 oed a hŷn. Mae'r effaith hon yn digwydd oddeutu tair wythnos ar ôl y dos cyntaf o'r brechlyn, ac mae'r ail ddos yn gwella'r amddiffyniad hwn i rhwng 80% a 90%.


<sup>41</sup> Y ffynhonnell ar gyfer pob ffigur ynghylch effeithiolrwydd y brechlyn, ac eithrio lle nodir yn wahanol, yw: <https://www.gov.uk/government/publications/phe-monitoring-of-the-effectiveness-of-covid-19-vaccination>

58. Mae data cynnar ar gyfer y brechlyn AstraZeneca yn awgrymu lefel dda o amddiffyniad ar ôl un dos ond gan na ddechreuwyd dyrannu'r brechlyn hwn tan fis Ionawr 2021, ar hyn o bryd mae graddfa'r effaith yn llai sicr.
59. Yn drydydd, ymhlith pobl hŷn (80 oed a hŷn) sy'n datblygu haint COVID-19, mae gan y rheiny sydd wedi'u brechu, y mae'r rhan fwyaf ohonynt wedi cael un dos hyd yn hyn, debygolïaeth llawer is o gael eu derbyn i'r ysbyty (oddeutu 40% yn is) a marwolaeth (oddeutu 56% yn is) na'r rheiny nad ydynt wedi'u brechu. Yn ogystal, mae tystiolaeth gynnar bod y gyfradd gostwng yn y nifer o bobl sy'n cael eu derbyn i'r ysbyty a marwolaethau ar hyn o bryd yn uwch ymhlith y rheiny sy'n 75 oed a hŷn (y boblogaeth sydd wedi'i brechu hyd yn hyn) nag mewn carfanau oedran ieuengach. Y gwrthwyneb oedd yn wir mewn cyfnod cyffelyb yn ystod y don gyntaf ym mis Ebrill 2020.
60. O ystyried hyn i gyd, mae'r data hwn yn awgrymu bod un dos o'r brechlyn yn rhoi lefel uchel o amddiffyniad yn erbyn haint symptomatig ac asymptomatig, yn erbyn yr angen i fynd i'r ysbyty a marwolaeth yn sgil COVID-19.
61. Yn gyffredinol, mae hyn yn golygu y bydd y nifer o bobl sy'n cael eu derbyn i'r ysbyty a marwolaethau yn sgil COVID-19 wedi'i leihau o 75% o leiaf ymhlith y rheiny sydd wedi cael dos o'r brechlyn Pfizer. Wedi'i gyfuno â'r lledaeniad gostyngol drwy frechu gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol, mae hyn yn golygu bod ein poblogaeth hŷn wedi'i hamddiffyn yn llawer gwell rhag COVID nag erioed o'r blaen.
62. Gwelir effaith y brechlyn yng ngwledydd eraill hefyd, megis Israel. Mae'r rhan fwyaf o achosion y DU bellach yn gysylltiedig â'r amrywiolyn B.1.1.7, ac mae'r lefelau amddiffyniad ymhlith gweithwyr gofal iechyd yn debyg iawn i'r hyn a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Israel.<sup>42</sup> Awgryma hyn bod y brechlyn yn gweithio'n dda yn erbyn y straen hon. Ar hyn o bryd, nid oes digon o achosion yn cylchredeg i fesur unrhyw effaith yn erbyn Amrywiolynnau eraill sy'n Peri Pryder.
63. Mae'r brechlynnau wedi trawsnewid ein hymdrechion i fynd i'r afael â COVID-19 a byddant yn atal nifer o farwolaethau. Serch hynny, ni fyddant yn gwarantu amddiffyniad i bawb. Ni fydd y boblogaeth gyfan yn cael eu brechu. Mae hyn oherwydd nad yw'r brechlyn wedi'i awdurdodi ar hyn o bryd i rai grwpiau, megis plant, ac ni fydd rhai pobl yn derbyn y cynnig o frechlyn. Ni fydd brechlynnau yn gwbl effeithiol yn erbyn haint symptomatig ymhlith y rheiny sydd wedi'u brechu, ac ni fyddant yn gwbl effeithiol yn erbyn afiechyd a marwolaeth difrifol ychwaith.
64. Am y rhesymau hyn, gallai cyfran sylweddol o'r boblogaeth gael ei heintio, naill ai oherwydd nad ydynt wedi'u brechu neu oherwydd nad yw'r brechlyn yn effeithiol iddynt. Dangosir hyn yn Ffigwr 7. Gallai hyn olygu y bydd angen rhai mesurau i gyfyngu lledaeniad ar ôl i bob oedolyn gael cynnig y brechlyn. Gallai'r rhain gynnwys arweiniad megis "dwylo, wyneb, gofod", cynnal y system Profi, Olrhain ac Ynysu a rheolyddion ar y ffin (gweler pennod 4). Nid yw'n hysbys i ba raddau y bydd angen mesurau o'r fath ar ôl i'r holl oedolion gael eu brechu. Fel y nodwyd ym mhennod 3, mae'r Llywodraeth yn archwilio pa fesurau a all fod eu hangen.

<sup>42</sup> [https://www.thelancet.com/journals/lancet/article/PIIS0140-6736\(21\)00448-7/fulltext](https://www.thelancet.com/journals/lancet/article/PIIS0140-6736(21)00448-7/fulltext)



**Ffigwr 7: Darluniad o ymdriniaeth bosibl y brechlyn (gan gymryd yn ganiataol bod pawb sy'n gymwys yn ei dderbyn)<sup>43</sup>**



## Paratoi at ailfrechu

65. Ar hyn o bryd, nid yw'n hysbys am ba mor hir y bydd pobl sy'n cael brechlyn COVID-19 yn cael eu hamddiffyn. Mae hyn oherwydd gall yr amddiffyniad maent yn ei gyflwyno wanhau dros amser, yn yr un modd â nifer o frechlynnau. Mae hefyd yn bosibl i amrywiolynnau newydd o'r feirws ymddangos y mae'r brechlynnau cyfredol yn llai effeithiol yn eu herbyn. Yn ogystal â gweithio'n agos â gweithgynhyrchwyr, mae gwyddonwyr y Llywodraeth yn ceisio deall yn well effaith rhai Amrywiolynnau sy'n Peri Pryder ar y brechlynnau sy'n cael eu dyrannu ar hyn o bryd.
66. I sicrhau bod y wlad yn barod ar gyfer y sefyllfaoedd hyn ac wrth i ragor o dystiolaeth gael ei chasglu, mae'r Llywodraeth yn cynllunio ymgyrch ailfrechu, sy'n debygol o gael ei chynnal yn hwyrach eleni yn yr hydref neu aeaf. Mae unrhyw ailfrechu yn debygol o gynnwys un dos 'atgyfnerthu' o frechlyn COVID-19: gall y brechlyn atgyfnerthu delfrydol fod yn frechlyn newydd sydd wedi'i ddylunio'n benodol yn erbyn amrywiolyn o'r feirws. Dros y tymor hirach, mae'n debyg y bydd ailfrechu yn dod yn rhan reolaidd o reoli COVID-19.

<sup>43</sup> Addaswyd o 210217 SPI-M-O crynodeb o fodelu sefyllfaoedd y map trywydd. Darluniad o ymdriniaeth bosibl y brechlyn. Mae'r ffigwr yn dangos cyflwr sefydlog o effeithiolrwydd y brechlyn, unwaith y bydd y brechlynnau wedi'u cyflwyno'n llawn. Nid rhagamcaniad mo hwn ac mae'n cymryd yn ganiataol bod pawb sy'n gymwys yn ei dderbyn yn llwyr (h.y. dim petruster). Yn honni 84% o effeithiolrwydd y brechlyn yn erbyn clefyd difrifol. Yn honni bod effeithiolrwydd y brechlyn yn y crynodeb SPI-M-O yn gyfartal i effeithiolrwydd y brechlyn yn y byd real. Yn gyffredinol, mae'r grŵp "anghymwys" yn golygu'r rheiny dan 18 oed.

67. Ymddengys bod y brechlynnau Pfizer/BioNTech ac Oxford/AstraZeneca sy'n cael eu dyrannu yn y DU ar hyn o bryd yn gweithio'n dda yn erbyn y prif straeniau cyfredol o COVID-19 yn y DU. Mae parhau i ddyrannu'r brechlynnau hyn ar raddfa yn parhau i fod yn allweddol i ddod â'r feirws dan reolaeth ac i alluogi llacio'r cyfyngiadau yn ddiogel.
68. Mae'r Llywodraeth yn cymryd camau i sicrhau bod y DU yn parhau i gael mynediad at ystod o frechlynnau effeithiol. Mae capasiti domestig ar gyfer cynhyrchu'r brechlyn yn cael ei atgyfnerthu ledled y wlad gyfan: ers dechrau'r pandemig, mae'r Llywodraeth wedi buddsoddi dros £300 miliwn i sicrhau a chynyddu gweithgynhyrchu yn y DU. Mae hyn yn cynnwys £93 miliwn i gyflymu cwblhad ac ehangiad rôl y Ganolfan Arloesedd Gweithgynhyrchu Brechlynnau yn Harwell, a £127 miliwn i sefydlu safle yn Braintree fel canolfan weithgynhyrchu ac arloesedd Celloedd a Genynnau. Yn ogystal, mae'r Llywodraeth wedi ariannu - drwy dalu am frechlynnau ymlaen llaw - gwaith ehangu'r ffatri Valneva yn Livingston, yr Alban a sicrhau neilltuaeth "llenwi a chwblhau" o 24 mis gyda Wockhardt yn Wreccsam, gogledd Cymru.
69. Mae partneriaeth newydd wedi'i sefydlu gyda'r gwneuthurwr brechlyn CureVac. Bydd y cytundeb yn trosoli arbenigedd blaenllaw y DU mewn genomeg a dilyniannau feirws i ganiatáu i amrywiaethau newydd o'r brechlynnau yn seiliedig ar dechnoleg negesydd RNA (mRNA) gael eu datblygu'n gyflym yn erbyn straeniau newydd o COVID-19 petai eu hangen. Mae gan frechlynnau ar sail mRNA y potensial i gynhyrchu brechlynnau yn gyflymach nag unrhyw ddull arall a bod yn fwy hyblyg a gwydn yn erbyn germau sy'n dueddol o esblygu drwy fwtadu, megis coronafeirysau a fflwiau. Mae archeb gychwynnol o 50 miliwn dos o'r brechlyn hwn wedi'i chyflwyno a byddant yn cael eu danfon yn hwyrach eleni pe bydd eu hangen.<sup>44</sup> Bydd hyn yn gymorth i sicrhau gall y Llywodraeth ddatblygu a dyrannu brechlynnau'n gyflym yn erbyn unrhyw amrywiolyn newydd, neu afiechydon newydd cyffelyb, yn y dyfodol.

## Strategaeth brechlynnau rhyngwladol

70. Mae'r Llywodraeth eisiau bod ar flaen y gad o ran lledaenu manteision brechlynnau COVID-19 ledled y byd. Mae iechyd pob gwlad yn dibynnu ar y byd cyfan yn cael mynediad at frechlynnau, therapiwteg a diagnosteg ddiogel ac effeithiol.
71. Mae'r Llywodraeth wedi gwneud addewid y bydd yn rhannu'r rhan fwyaf o unrhyw frechlyn COVID-19 sy'n weddill yn y dyfodol o gyflenwad y DU gyda COVAX, y fenter ryngwladol i gyflawni mynediad teg at ddau biliwn o frechlynnau, i amddiffyn biliwn o bobl yn 2021.<sup>45</sup> Yn ogystal, mae'r Llywodraeth wedi rhoi £548 miliwn o gyllid i COVAX, sy'n ei gwneud yn un o'r rhoddwyr mwyaf.<sup>46</sup>
72. Bydd y DU yn defnyddio ei llywyddiaeth G7 i annog arweinwyr i gynyddu eu cyllid i COVAX er mwyn cefnogi mynediad teg at frechlynnau. Yn ogystal, mae'r DU yn gweithio'n agos â chyrrff byd-eang a phartneriaid rhyngwladol megis y Coalition for Epidemic Preparedness Innovations (CEPI) a Gavi (y Gynghrair Frechu sy'n darparu

<sup>44</sup> <https://www.gov.uk/government/news/new-vaccines-partnership-to-rapidly-respond-to-new-virus-variants>

<sup>45</sup> <https://www.g7uk.org/pm-announces-100-day-target-to-create-new-vaccines/>

<sup>46</sup> <https://www.gov.uk/government/news/uk-raises-1bn-so-vulnerable-countries-can-get-vaccine>

brechiadau i hanner boblogaeth plant y byd) i sicrhau bod gwledydd incwm isel a chanolig yn gallu defnyddio brechlynnau, triniaethau a phroffion COVID-19.

## Therapiwteg

73. Mae triniaethau effeithiol yn parhau i fod yn hanfodol i leihau'r risg i fywydau a'r risg o salwch difrifol. Mae therapiwteg hefyd yn amhrisiadwy i'r rheiny nad yw'r brechlyn yn atal afiechyd ynddynt.
74. Oherwydd hyn, mae'r Llywodraeth yn cefnogi rhaglen uwch o dreialon clinigol o driniaethau therapiwtig. Diolch i gleifion sydd wedi ymrestru ar dreialon clinigol i brofi darpar therapiwteg, y GIG, sy'n gweithio gyda'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Iechyd ac Ymchwil ac Arloesedd y DU, mae'r DU yn arwain y ffordd o ran darganfod triniaethau sy'n achub bywydau, sydd wedi'u rhyddhau i gleifion yn y DU a ledled y byd. Mewn treial yn y DU y llynedd,<sup>47</sup> canfuwyd manteision dexamethasone, sy'n lleihau'r risg o farwolaeth o 20% i gleifion sydd ar ocsigen ac yn lleihau'r risg o farwolaeth o 35% i gleifion sy'n defnyddio peiriant anadlu. Eleni, mae treialon y DU<sup>48</sup> wedi dangos bod tocilizumab yn gallu lleihau marwoldeb a hyd arosiadau yn yr ysbyty. Mae manteision tocilizumab yn ychwanegol i dexamethasone ac mae'r triniaethau hyn bellach yn cael eu defnyddio yn ysbytai ledled y DU i achub bywydau a lleihau'r pwysau ar y GIG. Pan gânt eu cyfuno, mae dexamethasone a tocilizumab neu sarilumab yn lleihau'r risg o farwolaeth i gleifion sy'n cael eu derbyn i'r ysbyty o rhwng traean i hanner.<sup>49</sup>
75. Mae disgwyl rhagor o ganlyniadau ar gyfer meddyginiaethau sy'n cael eu defnyddio i reoleiddio neu normaleiddio'r system imiwnedd, gwrthgeulyddion, gwrthfeirysau, a gwrthgyrff therapiwtig i'w defnyddio gan gleifion yng nghanau gwahanol o'r salwch a gwahanol leoliadau gofal, gan gynnwys ysbytai a gofal dwys, gofal sylfaenol a chartrefi gofal. Yn ogystal, mae'r Llywodraeth yn monitro a allai therapïau proffylactig leihau'r nifer o gleifion sy'n fregus i COVID-19 er eu bod wedi'u brechu, yn ogystal â therapïau i'r rheiny sy'n parhau i ddioddef o effeithiau COVID-19.
76. Mae Llywodraeth y DU wedi gweithio'n agos â'r Gweinyddiaethau Datganoledig drwy gydol y pandemig i sicrhau bod gan y DU fynediad at driniaethau effeithiol ar gyfer COVID-19, a bydd yn parhau i wneud hynny. Mae hyn yn cynnwys drwy RAPID C-19, menter amlasiantaethol sy'n cynnwys y Gweinyddiaethau Datganoledig, sydd wedi galluogi mynediad cyflym at driniaethau diogel ac effeithiol i gleifion ledled y DU.

<sup>47</sup> Y treial RECOVERY

<sup>48</sup> Y treial RECOVERY a'r treialon REMAP-CAP

<sup>49</sup> Y treial RECOVERY <https://www.recoverytrial.net/news/tocilizumab-reduces-deaths-in-patients-hospitalised-with-covid-19>

### 3. MAP TRYWYDD

77. Mae'r map trywydd hwn yn gynllun cam wrth gam i lacio cyfyngiadau yn ofalus yn Lloegr, gan ddechrau gydag ysgolion a cholegau. Mae'r Gweinyddiaethau Datganoledig yn sefydlu cynlluniau ar wahân yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Gan gydnabod pwysigrwydd eglurder i'r rheiny sy'n byw a gweithio yn rhannau gwahanol o'r DU, yn enwedig mewn cymunedau traws-ffiniol, bydd y Llywodraeth yn parhau i weithio'n agos â'r Gweinyddiaethau Datganoledig.
78. Mae'r cyfnod clo wedi cael effaith sylweddol ar yr economi a busnesau. Fel y nodwyd ym mhennod 1, mae hefyd wedi cael effaith niweidiol ar ansawdd bywyd ac iechyd meddwl pobl. Mae penderfyniadau ynglŷn â phryd i lacio cyfyngiadau, ac ym mha drefn, yn ceisio cyflawni cydbwysedd rhwng y dystiolaeth a chyngor epidemiolegol, yr effaith mae'r cyfnod clo yn ei chael ar iechyd pobl (gan gynnwys iechyd meddwl ac effeithiau anghymesur ar grwpiau penodol), llesiant, a'r economi.
79. Mae llwyddiant y rhaglen frechu yn golygu gall y Llywodraeth ddechrau cynllunio i ddod allan o'r cyfnod clo. Serch hynny, bydd y Llywodraeth yn ymgymryd â dull gofalus o lacio'r cyfnod clo, ac yn gwneud hynny'n seiliedig ar y data er mwyn osgoi cynnydd cyflym yn yr achosion a fyddai'n rhoi pwysau anghynladwy ar y GIG ac yn cymryd mwy o fywydau cyn i bobl gael cyfle i dderbyn y brechlyn.
80. Fel sail i gyflymder a threfn y map trywydd, comisiynodd y Llywodraeth gyngor a modelu gan SAGE a'i is-grwpiau. Mae hwn yn cael ei gyhoeddi er mwyn i'r cyhoedd gael gweld y dystiolaeth sydd wedi bod yn sail i ddyluniad y map trywydd.

#### Egwyddorion dros lacio

81. Mae dyluniad y map trywydd wedi bod yn seiliedig ar rai egwyddorion pwysig. Heb wahaniaeth sylweddol rhwng rhanbarthau, bydd y Llywodraeth yn llacio cyfyngiadau ar yr un pryd ar draws Lloegr gyfan. Oherwydd lledaeniad gweddol unffurf y feirws ar draws y wlad, mae'r pedwar cam allan o'r cyfnod clo sydd wedi'u nodi yn y map trywydd wedi'u dylunio i fod yn berthnasol i bob rhanbarth. Bydd penderfyniadau ynghylch llacio cyfyngiadau yn cael eu harwain gan ddata yn hytrach na dyddiadau. Mae'n cymryd oddeutu pedair wythnos i'r data adlewyrchu effaith llacio'r cyfyngiadau a bydd y Llywodraeth yn darparu rhybudd o wythnos ychwanegol i unigolion a busnesau cyn gwneud rhagor o newidiadau. Am y rheswm hwnnw, bydd o leiaf pum wythnos rhwng y camau yn y map trywydd. Mae'r holl ddyddiadau 'dim cynharach na' mynegol yn y map trywydd yn dibynnu ar y data a gallant newid.
82. Mae dychwelyd at addysg wyneb yn wyneb yn ysgolion a cholegau yn flaenoriaeth genedlaethol. Mae'r Llywodraeth wedi gwneud y penderfyniad anodd i gyfyngu presenoldeb yn y lleoliadau addysg hyn dim ond pan oedd gwneud hynny'n gwbl

hanfodol er mwyn rheoli'r feirws ac arbed bywydau. Felly, rhaid i ddychwelyd at addysg wyneb yn wyneb yn ysgolion a cholegau fod y cam cyntaf i ddod allan o'r cyfnod clo hwn. Bydd y drefn lacio yn seiliedig ar y dystiolaeth o ffynonellau lledaenu. Mae gweithgareddau awyr agored wedi'u blaenoriaethu oherwydd bod y debygolrwydd o ledaeniad COVID-19 yn sylweddol is yn yr awyr agored na dan do. Mae hyn yn rhoi rhagor o ryddid i bobl yn gyflymach gan leihau effaith ar ledaeniad.

## Y Pedwar Prawf

83. Cyn cymryd pob cam, bydd y Llywodraeth yn adolygu'r data diweddaraf ar effaith y cam blaenorol yn erbyn pedwar prawf. Mae'r profion fel a ganlyn:
  1. Y rhaglen frechu yn parhau'n llwyddiannus.
  2. Y dystiolaeth yn dangos bod brechlynnau yn ddigon effeithiol o ran lleihau'r nifer sy'n cael eu derbyn i'r ysbyty a marwolaethau ymhlith y bobl sydd wedi'u brechu.
  3. Cyfraddau heintio ddim yn cyflwyno risg o gynnydd cyflym yn y nifer o bobl sy'n cael eu derbyn i'r ysbyty a fyddai'n rhoi pwysau anghynaliadwy ar y GIG.
  4. Ein hasesiad o'r risgiau heb ei newid yn sylweddol gan Amrywiolynnau newydd sy'n Peri Pryder.

Ffigwr 8: Y Pedwar Prawf

## Y Pedwar Prawf



### Prawf 1

Y rhaglen frechu yn parhau'n llwyddiannus.



### Prawf 2

Y dystiolaeth yn dangos bod brechlynnau yn ddigon effeithiol o ran lleihau'r nifer sy'n cael eu derbyn i'r ysbyty a marwolaethau ymhlith y bobl sydd wedi'u brechu.



### Prawf 3

Cyfraddau heintio ddim yn cyflwyno risg o gynnydd cyflym yn y nifer o bobl sy'n cael eu derbyn i'r ysbyty a fyddai'n rhoi pwysau anghynladwy ar y GIG.



### Prawf 4

Ein hasesiad o'r risgiau heb ei newid yn sylweddol gan Amrywiolynnau newydd sy'n Peri Pryder.

## Camau'r Map Trywydd

### Cam 1

Ffigwr 9: Cam 1



84. Ar sail asesiad y Llywodraeth o'r data cyfredol yn erbyn y pedwar prawf, gall Cam 1 fynd rhagddo. Bydd Cam 1 yn dechrau gydag ysgolion ar **8 Mawrth**, ac yn cynnwys peth newid cyfyngedig pellach ar **29 Mawrth** i ganiatáu i deuluoedd gwrdd yn yr awyr agored wrth i'r rhan fwyaf o ysgolion gau ar gyfer gwyliau'r Pasg. Erbyn yr amser y bydd Cam 1 yn dechrau, bydd pobl 70 oed a hŷn a'r rhai sy'n hynod fregus yn glinigol (carfanau 1 i 4 y JCVI) wedi cael amddiffyniad gan eu dos cyntaf o'r brechlyn.
85. Mae'r Llywodraeth wastad wedi dweud bod dychwelyd at addysg wyneb yn wyneb yn ysgolion a cholegau yn flaenoriaeth genedlaethol. Gwnaethpwyd y penderfyniad i gyfyngu presenoldeb wyneb yn wyneb yn lleoliadau addysg a gofal plant o gwmpas oriau ysgol dim ond pan oedd gwneud hynny'n gwbl hanfodol er mwyn rheoli'r feirws ac arbed bywydau. Gŵyr y Llywodraeth mai addysg wyneb yn wyneb yw'r lle gorau i ddisgyblion a myfyrwyr. Felly, plant a phobl ifanc i ddychwelyd at addysg wyneb yn wyneb yw'r cam cyntaf i lacio'r cyfnod clo hwn.
86. Mae tystiolaeth glir y gall amser oddi wrth addysg fod yn niweidiol i ragolygon a photensial ennill plant yn y dyfodol, gyda goblygiadau hefyd o ran cynhyrchedd hirdymor.<sup>50</sup> Yn ogystal, canfu dadansoddiad y Sefydliad Astudiaethau Cyllid bod yr oriau gweithio ymhlith pob rhiant wedi hanneru ym mis Mai 2020 mewn cymhariaeth â 2014-15. Felly, mae dychwelyd at addysg wyneb yn wyneb yn ysgolion yn flaenoriaeth i'r Llywodraeth, gan y bydd yn lleihau'r costau economaidd a chymdeithasol sylweddol sydd wedi bod ynghlwm â chyfyngu dysgu wyneb yn wyneb.<sup>51</sup>
87. Bydd disgyblion a myfyrwyr ym mhob ysgol a lleoliad Addysg Bellach yn dychwelyd at addysg wyneb yn wyneb o 8 Mawrth. Gall gofal plant o gwmpas oriau ysgol (gan gynnwys gofalwyr plant) a gweithgareddau eraill i blant ailddechrau o 8 Mawrth i bob plentyn lle mae ei angen er mwyn galluogi rhieni neu ofalwyr i weithio, ceisio gwaith, mynychu addysg, ceisio gofal meddygol neu fynychu grŵp cefnogi. Gall plant bregus fynychu'r lleoliadau hyn waeth beth fo'u hamgylchiadau. Gall chwaraeon dan 18 oed gael eu cynnal yn yr ysgol fel rhan o ddarpariaeth addysgol, neu fel rhan o ofal o gwmpas oriau ysgol, ond ni ddylid eu cynnal fel arall ar hyn o bryd.
88. Ar 27 Ionawr, ymrwymodd y Prif Weinidog i ddarparu rhaglen enfawr i gynorthwyo i adfer dysg wedi'i cholli, gan gydnabod bod yr amhariad eleni wedi cael effaith sylweddol ar blant. Bydd hyn yn golygu £300 miliwn ychwanegol ar raglenni tiwtora, adeiladu ar gronfa Dal i Fyny COVID-19 gwerth £1 biliwn y llynedd, yn ogystal â chynlluniau posibl ar gyfer ysgolion haf wedi'u datblygu mewn partneriaeth â'r sector addysg. Yn ogystal, mae'r Llywodraeth wedi cyhoeddi penodiad Syr Kevan Collins yn Gomisiynydd Adfer Addysg, i oruchwyllo rhaglen adferiad gynhwysfawr wedi'i hanelu at bobl ifanc sydd wedi colli allan ar ddysg oherwydd y pandemig. Bydd yn mynd i'r afael â ffactorau megis cynnwys y cwricwlwm ac ansawdd amser addysgu yn y misoedd nesaf, i sicrhau yr ymdrinnir â'r effaith mae'r pandemig wedi'i chael ar ddysg mor gyflym a chynhwysfawr â phosibl.<sup>52</sup>
89. Bydd myfyrwyr sy'n gwneud cyrsiau Addysg Uwch ymarferol ym mhrifysgolion Lloegr na fyddai'n gallu cwblhau eu cyrsiau pe na fyddant yn dychwelyd i gymryd rhan

<sup>50</sup> <https://www.ifs.org.uk/publications/15291>

<sup>51</sup> <https://www.ifs.org.uk/publications/14860>

<sup>52</sup> <https://www.gov.uk/government/news/new-commissioner-appointed-to-oversee-education-catch-up>



mewn addysgu ymarferol, defnyddio cyfleusterau arbenigol, neu gwblhau asesiadau hefyd yn dychwelyd ar 8 Mawrth. Gellir cadw labordai a llyfrgelloedd ymchwil yn agored os oes angen.

90. I'r myfyrwyr Addysg Uwch hynny nad oes angen iddynt gymryd rhan mewn addysgu ymarferol, ac nad oes angen mynediad arnynt at gyfleusterau neu gyfarpar arbenigol fel rhan o'u hastudiaethau, erbyn diwedd gwyliau'r Pasg, bydd y Llywodraeth yn adolygu'r opsiynau ar gyfer amseru dychweliad y myfyrwyr hyn. Bydd hyn yn cymryd i ystyriaeth y data diweddaraf ac yna bydd yn rhan allweddol o gamau ehangach y map trywydd. Bydd myfyrwyr a sefydliadau yn cael rhybudd o wythnos cyn ailagor unrhyw beth. Mae'r Llywodraeth yn cydnabod yr anawsterau ac aflonyddwch y gall hyn ei achosi i nifer o fyfyrwyr a'u teuluoedd lle na allant ddychwelyd i leoliadau Addysg Uwch, ond mae'n hanfodol cyfyngu'r nifer o fyfyrwyr sy'n dychwelyd i'r brifysgol ar y cam hwn er mwyn lleihau teithio a rheoli'r risg lledaenu. Mae'r Llywodraeth wedi cyhoeddi £70 miliwn ychwanegol o gyllid caledi y flwyddyn ariannol hon, y gall prifysgolion ei ddefnyddio i gefnogi myfyrwyr sydd wedi'u heffeithio gan COVID-19.
91. Bydd dychweliad llwyddiannus rhagor o ddysgwyr i addysg wyneb yn wyneb a lleoliadau gofal plant yn cael ei gefnogi gan ystod o fesurau newydd, wedi'u dylunio i leihau lledaeniad COVID-19. Mae'r Llywodraeth yn cymeradwyo'r ymdrechion enfawr gan ddisgyblion a myfyrwyr, ymarferwyr y blynyddoedd cynnar, athrawon, darlithwyr a staff cefnogi i fewnosod mesurau diogelwch. Bydd y risg lledaenu yn lleihau drwy fewnosod y system o reolyddion sy'n cael ei chefnogi gan lechyd Cyhoeddus Lloegr a bydd yr Adran Addysg yn gweithio gydag ysgolion i'w mewnosod. Yn ogystal â'r cynllun profi cyflym sefydledig a phrofi staff yn rheolaidd, bydd disgyblion ysgolion uwchradd a choleg yn cael eu profi dwywaith yr wythnos, gyda phroffion ar y safle i ddechrau ac yna profion cartref. Bydd pob aelwyd sydd â phlant oed ysgol, aelodau o'u swigod cefnogaeth a gofal plant, a'r rheiny mewn galwedigaethau cysylltiedig hefyd yn cael eu hannog i gael eu profi'n rheolaidd.
92. Yn ogystal, mae'r Llywodraeth yn argymhell ymestyn y defnydd o orchuddion wyneb yn lleoliadau Addysg Uwch, Addysg Bellach ac ysgolion uwchradd am gyfnod penodol i bob amgylchedd dan do - gan gynnwys ystafelloedd dosbarth - oni bai y gellir cadw 2m o bellter cymdeithasol. Erbyn hyn, argymhellir y defnydd o orchuddion wyneb yn lleoliadau'r blynyddoedd cynnar ac ysgolion cynradd i staff ac ymwelwyr sy'n oedolion mewn sefyllfaoedd pan nad yw ymbellhau cymdeithasol rhwng oedolion yn bosibl, er enghraifft, wrth symud o gwmpas ar y coridorau ac ardaloedd cyffredin. Unwaith eto, bydd disgwyl i bob plentyn fynychu'r ysgol, fel y gwnaethant yn nhymor yr hydref.
93. O 8 Mawrth, bydd y cyfyngiad Arhoswch Gartref yn parhau ond yn cael ei addasu fel gall pobl adael eu cartrefi am resymau hamdden yn ogystal ag ymarfer corff yn yr awyr agored - gyda'u haelwyd eu hunain, eu swigen gefnogaeth neu ofal plant, neu gydag unigolyn o aelwyd arall. Dylid cadw pellter cymdeithasol a chynnal ymddygiadau diogel eraill.
94. Yn Lloegr, ni chaniateir teithio i fynd ar wyliau dramor ac, o 8 Mawrth, bydd gorfodaeth gyfreithiol ar deithwyr sy'n gadael y wlad i roi rheswm dros deithio ar y ffurflen Datganiad i Deithio.

95. Mae etholiadau diogel yn rhan annatod o ddemocratiaeth y DU, ac mae'r Llywodraeth wedi cadarnhau y bydd etholiadau cynghorau, maerol a chomisiynydd yr heddlu a throseddu Diogel o ran COVID yn parhau i fynd rhagddynt ar 6 Mai yng Nghymru a Lloegr. Mae'r Llywodraeth wedi cyhoeddi cynllun cyflawni etholiadau mis Mai,<sup>53</sup> gan nodi sut fydd timau etholiadau lleol yn cael eu cefnogi i ddarparu polau effeithiol sy'n Ddiogel o ran COVID i bleidleiswyr a staff. Bydd y Llywodraeth yn addasu'r rheoliadau i alluogi ystod ehangach o weithgareddau yn ymwneud ag ymgyrchoedd o 8 Mawrth, ond mae'n hanfodol i hyn ddigwydd mewn modd Diogel o ran COVID, yn unol â'r canllawiau a'r gyfraith. Bydd y Llywodraeth yn cyhoeddi rhagor o ganllawiau i ymgeiswyr, eu hasiantau a phleidiau gwleidyddol ynghylch ymgyrchu yn yr etholiadau maes o law, ac yn ymgysylltu â'r Panel Pleidiau Seneddol ynghylch y canllaw hwn yn fuan i sicrhau y rhoddir ystyriaeth i safbwyntiau pleidiau gwleidyddol. Bydd etholiadau yn cael eu cynnal yng Nghymru a'r Alban hefyd. Llywodraethau Cymru a'r Alban sy'n gyfrifol am eu hetholiadau, ac eithrio'r Etholiadau Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yng Nghymru. Mae'r Llywodraeth yn gweithio'n agos â Llywodraethau Cymru a'r Alban i gefnogi i gyflawni'r etholiadau hyn.
96. O 8 Mawrth, bydd pob preswylwr cartref gofal yn Lloegr yn gallu enwebu un ymwelydd i ddod i mewn am ymweliad rheolaidd. Bydd rhaid i'r ymwelydd wneud prawf llif unffordd bob tro y bydd yn ymweld, gan wisgo Cyfarpar Diogelu Personol a chadw cyswllt corfforol i gyn lleied â phosibl. Mae rhagor o fanylion ynghylch cefnogaeth i breswylwyr a staff cartrefi gofal ym mhennod 5.
97. Yn yr un modd ag o'r blaen, gall pobl adael cartref i weithio os na allant weithio gartref ac i ddianc rhag salwch, anaf neu risg o niwed, gan gynnwys cam-drin domestig.
98. O 29 Mawrth, mae cyfle am ragor o newidiadau cyfyngedig fel rhan o Gam 1, wrth i'r rhan fwyaf o ysgolion gau ar gyfer gwyliau'r Pasg.
99. Erbyn hynny, bydd y cyfnod clo wedi bod mewn grym ers deuddeg wythnos, ac yn ystod y cyfnod hwnnw ni fydd pobl wedi gweld eu teulu estynedig a chyfeillion neu dreulio llawer o amser y tu allan i'w cartref. Ar yr adeg hon, bydd y Llywodraeth yn galluogi pobl i gwrdd mewn niferoedd cyfyngedig yn yr awyr agored, lle maent yn llai tebygol o gael eu heintio â'r feirws neu heintio eraill.
100. Bydd pobl yn gallu cwrdd yn yr awyr agored mewn grwpiau o hyd at uchafswm o 6 unigolyn (y Rheol 6) neu gydag un aelwyd arall, er bydd angen i bobl o wahanol aelwydydd barhau i gadw pellter cymdeithasol oddi wrth ei gilydd. Bydd hyn yn berthnasol ym mhob lleoliad yn yr awyr agored, gan gynnwys gerddi preifat. Mae grymuso'r ddau gyfyngiad yn rhoi rhagor o hyblygrwydd, gan gydnabod y sefyllfaoedd gwahanol mae teuluoedd ac unigolion yn eu hwynebu; bydd dwy aelwyd yn fwy defnyddiol i deuluoedd, ac mae'r Rheol 6 yn debygol o gynorthwyo pobl mewn gwahanol aelwydydd i aduno yn yr awyr agored, gan gynnwys y rheiny sy'n byw ar eu pen eu hunain neu mewn llety a rennir. Bydd y rhai sy'n gymwys i ffurfio swigen gefnogaeth yn dal i allu gwneud hynny, gan alluogi cyswllt agos i nifer o'r rheiny sydd angen cefnogaeth fwyaf, a byddant yn dal i gael eu cyfrif yn rhan o'r un aelwyd.

<sup>53</sup> <https://www.gov.uk/government/publications/may-2021-polls-delivery-plan>

101. Nodir yn y canllawiau sut all pobl weld eraill yn ddiogel: mae'r dystiolaeth yn glir mai'r ffordd fwyaf diogel o wneud hyn yw yn yr awyr agored, o bellter diogel, gan leihau amllder cyfarfodydd cymdeithasol a'r niferoedd sy'n bresennol pryd bynnag mae hynny'n bosibl. Bydd yn parhau i fod yn hanfodol - gyda'r rhan fwyaf o bobl heb gael eu hamddiffyn gan frechiadau - bod pobl yn dilyn y canllawiau, yn defnyddio swynnwyr cyffredin ac yn cadw pellter cymdeithasol oddi wrth aelwydydd eraill.
102. Yn ogystal, bydd y Llywodraeth yn caniatáu i gyfleusterau chwaraeon awyr agored ailagor, gan ehangu'r opsiynau ar gyfer ymarfer corff a hamdden yn yr awyr agored. Gall pobl ddefnyddio'r cyfleusterau hyn, megis cyrtiau tennis a phêl fased, a phyllau nofio, yn unol â'r cyfyngiadau ehangach ar gyswllt cymdeithasol. Gall chwaraeon awyr agored wedi'u trefnu'n ffurfiol - ar gyfer oedolion a phobl dan 18 oed - ailddechrau ac ni fydd gofyn iddynt gadw at gyfyngiadau ymgynulladau, ond dylent gydymffurfio â'r canllawiau a gyhoeddir gan gyrff llywodraethu cenedlaethol.
103. Bydd pob plentyn yn gallu manteisio ar unrhyw weithgaredd gofal plant a gweithgaredd dan oruchwyliaeth yn yr awyr agored. Yn ogystal, gall grwpiau rhieni a phlant gael eu cynnal yn yr awyr agored gyda chyfyngiad o 15 yn mynychu (nid yw plant dan bump oed yn cyfrif yn y cyfyngiad ar fynychwyr).
104. Bydd plant yn dal i allu mynychu gofal plant neu weithgareddau dan oruchwyliaeth dan do pan mae gwneud hynny yn caniatáu i rieni neu ofalwyr weithio, ceisio gwaith, mynychu addysg, ceisio sylw meddygol neu fynychu grŵp cefnogi yn unig. Mae plant bregus eisoes yn gallu mynychu'r lleoliadau hyn waeth beth fo'u hamgylchiadau personol a bydd y Llywodraeth yn sicrhau y bydd unrhyw blentyn arall sy'n gymwys am Brydau Bwyd Ysgol Am Ddim yn gallu gwneud hynny hefyd - gan sicrhau y gallant fynychu'r rheiny sy'n rhan o'r Rhaglen Gweithgareddau a Bwyd yn ystod Gwyliau sy'n cael ei chynnal dros wyliau'r Pasg.
105. Ni fydd y rheolau ynghylch angladdau yn newid; gall y rhain barhau gyda 30 yn mynychu a gwylnosau gyda 6 yn mynychu, er nid mewn cartrefi preifat. Bydd priodasau yn dal i allu mynd rhagddynt gyda 6 yn unig yn mynychu ond ni fyddant wedi'u cyfyngu i amgylchiadau eithriadol bellach.
106. O ganlyniad i'r newidiadau hyn, ni fydd gofyn cyfreithiol ar bobl i Aros Gartref. Wedi dweud hynny, bydd nifer o gyfyngiadau'r cyfnod clo yn parhau i fod mewn grym. Oni bai bod eithriad eisoes yn berthnasol, ni fydd yn bosibl cwrdd â phobl o aelwydydd eraill dan do a bydd nifer o fusnesau yn parhau i fod ar gau. Nodir yn y canllawiau y dylai pobl barhau i weithio gartref pryd bynnag y gallant. Dylai pobl barhau i leihau teithio pryd bynnag mae hynny'n bosibl, ac ni ddylent aros dros nos oddi cartref ar yr adeg hon.

### Lledaeniad yn yr Awyr Agored vs Dan Do

- Mae lledaeniad drwy'r aer yn ffordd sylweddol y mae COVID-19 yn lledaenu ymhlith pobl. Gall gronynnau o'r feirws gynyddu a chylchredeg yn yr aer ar ffurf erosolau mewn mannau caeedig (hyd yn oed os ydynt yn fawr), yn enwedig lle mae cyfnawid aer yn wael.<sup>54</sup> Mae hyn yn gwneud lleoliadau dan do yn fwy peryglus nag yn yr awyr agored, lle mae'r awyr iach yn gwasgaru'r feirws i lefelau diogel. Cadarnhawyd hyn gan astudiaethau arsylwadol yn olrhain pobl sydd wedi'u heintio â COVID-19 sy'n dangos bod y rhan fwyaf o ledaeniad yn digwydd mewn lleoliadau dan do a bod digwyddiadau 'lledaeniad eang' (lle caiff nifer o bobl eu heintio ar yr un pryd) yn fwy tebygol dan do nac yn yr awyr agored.<sup>55</sup>
- Er bod y risg o ledaenu COVID-19 drwy'r aer yn llawer llai yn yr awyr agored nag ydyw dan do, mae'r risg lledaenu drwy ddefnydd mwy yn parhau i fod yn uchel os bydd pobl yn cymryd rhan mewn cyswllt hirhoedlog, wyneb yn wyneb agos gydag eraill.<sup>56</sup> Felly, mae cadw 2m o bellter cymdeithasol yn parhau i fod yn llesol yn yr awyr agored. Gall arwynebau yn yr awyr agored barhau i gael eu heintio â'r feirws, felly pwysig hefyd yw bod yn ofalus pa wrthrychau a rennir yr ydych yn eu cyffwrdd, e.e. arwynebau meysydd chwarae a handlenni giatau, a pharhau i olchi dwylo yn rheolaidd.

### Dadansoddiad economaidd-gymdeithasol o Gam 1

- Mae cyfyngu ar addysg wyneb yn wyneb wedi cael effeithiau sylweddol a niweidiol ar ddysg, datblygiad ac iechyd meddwl plant. Erbyn hanner tymor mis Chwefror 2021, mae astudiaethau yn awgrymu y gallai cyfanswm y golled o ddysgu wyneb yn wyneb fod cyfwerth ag oddeutu hanner blwyddyn ysgol, gyda dau draean o flwyddyn arferol yn cael ei cholli os caiff ysgolion yn ail agor ei ohirio tan ar ôl y Pasg.
- Yn ogystal â bod yn llesol i blant yn uniongyrchol, ni fydd rhaid i rieni gydbwyso gofal plant a gweithio gartref bellach. Mae oddeutu 53% o rieni yn adrodd nad ydynt yn gallu gweithio cymaint oherwydd ysgolion yn cau; mae hyn yn fwy difrifol ymhlith rhieni plant y blynyddoedd cynnar a chynradd.<sup>57</sup>
- Roedd gweithgareddau chwaraeon, difyrrwch a hamdden werth oddeutu £12.8 biliwn yn y DU yn 2019 (£11 biliwn yn Lloegr),<sup>58</sup> ac yn darparu tua 565,000 o swyddi

<sup>54</sup> PHE Transmission Group: S0921 Factors contributing to risk of SARS-CoV2 transmission associated with various settings 18 Rhagfyr 2020

<sup>55</sup> SAGE: Analysis of SARS-CoV-2 transmission clusters and superspreading events, 3 Mehefin 2020

<sup>56</sup> SAGE EMG: Application of physical distancing and fabric face coverings in mitigating the B117 variant SARS-CoV-2 virus in public, workplace and community, 14 Ionawr 2021

<sup>57</sup> Arolwg Parent Ping, Ionawr 2021

<sup>58</sup> SYG, dull allbwn Cynnyrch Domestig Gros (GDP) – agregau lefel isel, Chwefror 2021 - (Mae ffigurau Gwerth Ychwanegol Gros (GVA) Lloegr wedi'u brasamcanu o werthoedd y DU)

(484,000 yn Lloegr).<sup>59</sup> Gallai llacio mesurau alluogi rhai o'r gweithgareddau hyn i ddychwelyd a manteisio ar dymor y gwanwyn/haf ac adfer refeniw a gollwyd. Mae'r busnesau hyn yn gyflogwyr arbennig o bwysig i bobl ifanc, gyda 37% o'u gweithlu rhwng 16 a 24 oed (o gymharu â chyfartaledd cenedlaethol o 11%).<sup>60</sup>

- Bydd agor lleoliadau chwaraeon awyr agored yn helpu i leihau'r effeithiau niweidiol ar iechyd corfforol a meddyliol y mae rhannau helaeth o'r boblogaeth yn eu profi, yn enwedig plant a'r rheini sy'n byw ar eu pennau eu hunain. Mae cryn dystiolaeth sy'n dangos bod ymarfer corff a chwaraeon awyr agored yn dda i leihau risg unigolion o afiechydon difrifol, megis clefyd y galon, strôc, diabetes math 2 a chanser hyd at 50% a risg is o farwolaeth gynnar hyd at 30%.<sup>61</sup> Gwyddys bod gweithgaredd corfforol hefyd yn helpu i wella iechyd meddwl trwy well cwsig, gwell hwyliau, a rheoli straen, pryder neu feddyliau ymwithiol a meddwl sy'n 'rasio'.<sup>62</sup>
- Mae cyfyngiadau ar gymdeithasu wedi cael effaith andwyol ar les ac iechyd meddwl pobl gyda bron i hanner o oedolion (49%) yn nodi diflastod, unigrwydd, pryder neu straen yn codi oherwydd y pandemig.<sup>63</sup>

<sup>59</sup> ONS, JOBS03: Swyddi gweithwyr yn ôl diwydiant, Rhagfyr 2020; SYG, JOBS04: Swyddi hunangyflogedig yn ôl diwydiant, Rhagfyr 2020 - (Mae ffigurau swyddi Lloegr wedi'u brasamcanu o werthoedd y DU)

<sup>60</sup> SYG, Cyflogaeth yn ôl galwedigaeth a nodwyd a diwydiant yn ôl rhyw ac oedran ym Mhrydain Fawr, y DU a'i gwledydd cyfansoddol 2018, Mai 2019

<sup>61</sup> GIG: Manteision Ymarfer corff, Mehefin 2018

<sup>62</sup> Mind: Gweithgaredd corfforol a'ch iechyd meddwl, Mawrth 2019

<sup>63</sup> SYG, Coronafeirws a'r effeithiau cymdeithasol ar Brydain Fawr: 13 Tachwedd 2020

## Cam 2

Ffigwr 10: Cam 2



107. Fel y nodwyd uchod, mae'n cymryd oddeutu pedair wythnos i'r data adlewyrchu effaith y cam blaenorol a bydd y Llywodraeth yn rhoi rhybudd o wythnos ychwanegol i fusnesau. Felly ni fydd Cam 2 yn digwydd **dim cynt na 12 Ebrill**, yn amodol ar asesiad o'r data yn erbyn ein pedwar prawf. Os bydd Cam 2 yn cael ei oedi, bydd angen gwthio camau dilynol yn ôl er mwyn cynnal y cyfnod angenrheidiol o bum wythnos i asesu effaith pob cam a rhoi rhybudd.

108. Bydd y cam hwn yn ailagor rhai rhannau o'n heconomi dan do a mwy o leoliadau awyr agored, gan adfer swyddi a bywoliaethau a galluogi pobl i gael mynediad at rai o'r gweithgareddau a'r gwasanaethau sydd bwysicaf iddynt.
109. Ni fydd yna newid pellach i'r rheolau cyswllt cymdeithasol yn Lloegr ar y pwynt hwn. Rhaid i gynulliadau awyr agored gael eu cyfyngu i 6 o bobl neu 2 aelwyd fel yng Ngham 1, ac ni chaniateir cymysgu dan do, oni bai ei fod wedi'i eithrio fel arall.
110. Bydd adeiladau ychwanegol yn gallu ailagor ond dim ond ar eich pen eich hun neu gyda grwpiau cartref y dylid ymweld â nhw: manwerthu nad yw'n hanfodol; adeiladau gofal personol fel trinwyr gwallt, salonau a gwasanaethau cyswllt agos; a chyfleusterau hamdden dan do fel campfeydd a sbas (ond heb gynnwys sawnau ac ystafelloedd stêm, sydd i fod i agor yng Ngham 3). Caniateir aros dros nos oddi cartref yn y wlad hon a gall llety hunangynhwysol - y rhai nad oes angen rhannu cyfleusterau ymolchi, mynediad/allanfa, arlwyo neu gysgu - ailagor, i'w defnyddio gan aelodau o'r un aelwyd yn unig. Bydd y Llywodraeth yn agor adeiladau cyhoeddus megis llyfrgelloedd a chanolfannau cymunedol. Gellir hefyd ailafael mewn gweithgareddau megis profion gyrru.
111. Gall mwyafrif y lleoliadau a'r atyniadau awyr agored ailagor hefyd, gan gynnwys lletygarwch awyr agored, swâu, parciau thema, sinemâu gyrru i mewn a digwyddiadau perfformio gyrru i mewn. Bydd y rheolau ar gyswllt cymdeithasol awyr agored hefyd yn berthnasol yn y lleoliadau hyn.
112. Bydd lleoliadau lletygarwch yn gallu agor ar gyfer gwasanaeth awyr agored, heb unrhyw ofyniad i bryd bwyd sylweddol gael ei weini ochr yn ochr â diodydd alcoholig, a dim cyrffiw. Bydd yr angen i archebu, bwyta ac yfed wrth eistedd ('gwasanaeth bwrdd') yn parhau.
113. Rhaid i bob lleoliad sydd newydd agor gadw at y rheolau cyswllt cymdeithasol. Bydd y Llywodraeth yn parhau i orfodi cyfyngiadau ac yn ei gwneud yn ofynnol i fusnesau ddangos strategaethau cadarn ar gyfer rheoli'r risg o drosglwyddo a sicrhau bod rheolau cadw pellter cymdeithasol yn cael eu dilyn. Bydd awdurdodau lleol a'r heddlu yn parhau i ddarparu cymorth a chyngor i leoliadau sydd newydd agor, gan eu caniatáu i weithredu'n ddiogel. Os nad yw busnesau'n dilyn y rheolau, bydd camau gorfodi priodol yn cael eu cymryd.
114. Bydd yna fesurau lliniaru i gyd-fynd â hyn megis profi'r gweithlu a chanllawiau cadw pellter cymdeithasol parhaus.
115. Dylai pobl barhau i weithio gartref lle y gallant, a lleihau teithio domestig lle y gallant. Bydd gwyliau rhyngwladol yn dal i gael eu gwahardd.
116. Yng Ngham 2, bydd y Llywodraeth yn gwneud penderfyniad ar ymestyn nifer yr ymwelwyr â chartrefi gofal i ddau i bob preswlydd ac yn nodi cynllun ar gyfer cam nesaf yr ymweliadau.
117. Bydd pob plentyn yn gallu mynd i unrhyw weithgaredd dan do i blant, gan gynnwys chwaraeon, ni waeth beth fo'r amgylchiadau. Gall grwpiau rhiant a phlentyn gyda hyd at 15 o bobl (heb gyfrif plant o dan bump oed) ailddechrau dan do.

118. Ar y pwynt hwn, gall angladdau barhau i gael eu cynnal gyda hyd at 30 yn bresennol. Bydd priodasau, derbyniadau a digwyddiadau coffaol gan gynnwys te angladdau yn gallu digwydd gyda hyd at 15 yn bresennol (mewn adeiladau y caniateir iddynt agor).

### Dadansoddiad economaidd-gymdeithasol o Gam 2

- Amcangyfrifwyd bod manwerthu nad yw'n hanfodol werth £44.6 biliwn o Werth Ychwanegol Gros (GVA)<sup>64</sup> yn y DU yn 2019, gan gyflogi tua 1.2 miliwn o bobl.<sup>65</sup> Mae cau'r sector hwn wedi arwain at ddefnydd uchel o'r cynllun ffyrlo yn y sector cyfanwerthu a manwerthu ehangach a chyrrhaeddodd y defnydd o'r cynllun ffyrlo uchafbwynt o 1.9 miliwn ym mis Ebrill, a 740,000 ar ddiwedd mis Tachwedd yn y DU.<sup>66</sup> Mae pobl o leiafrifoedd ethnig wedi'u gorgynrychioli yn y sector hwn, sef 16% o'r gweithwyr, fel y mae pobl ifanc (mae 35% o'r gweithlu rhwng 16 a 24 oed). Mae menywod hefyd yn cyfrif am gyfran fwy o'r gweithwyr (66% o'i gymharu â 47% yn genedlaethol.)<sup>67</sup>
- Mae lletygarwch yn rhan greiddiol o economi'r DU. Amcangyfrifwyd bod y sector Gwasanaethau Llety a Bwyd cyfan werth £57.6 biliwn yn y DU yn 2019 (£48.5 biliwn yn Lloegr), gan ddarparu swyddi i 2.5 miliwn o bobl (2.1 miliwn yn Lloegr). Y sector hwn yw un o'r rhai sydd wedi'i daro caletaf gan y pandemig: Cwmpodd allbwn GVA 91% ym mis Ebrill ac 89% ym mis Mai 2020, o'i gymharu â Chwefror 2020.<sup>68</sup> Tarodd y cyfyngiadau ym mis Tachwedd y sector yn galed hefyd, gyda GVA yn cwmpo'n ôl i 65% islaw'r lefel cyn y pandemig. Mae'r sector hwn hefyd wedi cael rhannau helaeth o'i weithlu ar ffyrlo: yn y don gyntaf cafodd 1.6 miliwn o swyddi eu rhoi ar ffyrlo ar ei anterth; ar ddiwedd mis Tachwedd roedd 1.1 miliwn o swyddi yn y sector hwn ar ffyrlo. Rhwng 25 Ionawr a 7 Chwefror, roedd 62% o fusnesau yn y gwasanaethau llety a bwyd wedi oedi masnachu dros dro.<sup>69</sup>
- Roedd gweithgareddau gofal personol yn cyfrif am £21.1 biliwn yn y DU yn 2019 (£18.9 biliwn yn Lloegr), gan ddarparu 566,000 o swyddi (507,000 yn Lloegr). Mae menywod wedi'u gorgynrychioli'n sylweddol yn y sector hwn, ac yn ffurfio 85% o'r gweithlu.
- Mae adeiladau a lleoedd cyhoeddus yn chwarae rhan hanfodol mewn bywyd economaidd a chymdeithasol cymunedau. Mae llyfrgelloedd a chanolfannau cymunedol eraill yn lleoedd gwerthfawr a diogel, yn aml i'r rhai mwyaf agored i niwed yn y gymdeithas. Maen nhw'n darparu gwasanaethau i gymunedau lleol a lleoedd i gymdeithasu. Mae gan bob lle cyhoeddus fanteision pwysig sy'n helpu i greu cysylltiadau lleol a synnwyr o berthyn i gymuned.

<sup>64</sup> Mesur o werth cynhyrchu nwyddau a gwasanaethau yw Gwerth Ychwanegol Gros (GVA).

<sup>65</sup> SYG, Diwydiant (2, 3 a 5 - digid Dosbarthiad Diwydiannol Safonol [SIC]) - Arolwg Cofrestr Busnes a Chyflogaeth (BRES): Tabl 2, Tachwedd 2020 (Mae'r ffigwr ar gyfer manwerthu nad yw'n hanfodol ar gyfer cyflogaeth yn unig ac nid yw'n cynnwys swyddi hunangyflogedig)

<sup>66</sup> CThEM, ystadegau'r Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws: Ionawr 2021

<sup>67</sup> SYG, Amcangyfrifon o nifer y bobl yn Lloegr sy'n 16 oed neu'n hŷn mewn cyflogaeth yn ôl galwedigaeth, rhyw ac ethnigrwydd, Ionawr 2017 i Ragfyr 2019

<sup>68</sup> SYG, Amcangyfrif misol CDG, DU: Rhagfyr 2020

<sup>69</sup> SYG, Mewnwelediadau Busnes a'r effaith ar economi'r DU: 11 Chwefror 2021



## Cam 3

Ffigwr 11: Cam 3



119. Ni fydd Cam 3 yn digwydd **dim cynt na 17 Mai**, ac o leiaf pum wythnos ar ôl Cam 2, yn dilyn adolygiad pellach o'r data a'r pedwar prawf. Eto, bydd y Llywodraeth yn cyhoeddi wythnos o flaen llaw a fydd y cyfyngiadau'n cael eu llacio fel y cynlluniwyd.
120. Yng Ngham 3, bydd yr holl sectorau, heblaw'r sectorau risg uchaf, yn gallu ailagor. Ym mhob sector, bydd canllawiau diogel o ran COVID yn aros ar waith a rhaid i eiddo peidio â darparu ar gyfer grwpiau sy'n fwy na'r cyfyngiadau cyfreithiol. Bydd y sectorau a fydd yn ailagor yn cynnwys:

- a. **Lletygarwch dan do**, heb unrhyw ofyniad i bryd bwyd sylweddol gael ei weini ochr yn ochr â diodydd alcoholig, a dim cyrffiw. Bydd yr angen i archebu, bwyta ac yfed wrth eistedd ('gwasanaeth bwrdd') yn parhau.
  - b. **Adloniant awyr agored sydd ar ôl**, megis theatrau awyr agored a sinemâu;
  - c. **Adloniant dan do**, megis amgueddfeydd, sinemâu ac ardaloedd chwarae i blant;
  - d. **Llety sydd ar ôl**, megis gwestai, hosteli a gwely a brecwast;
  - e. **Grwpiau chwaraeon a dosbarthiadau ymarfer corff dan do i oedolion; a**
  - f. **Rhai digwyddiadau mawr gan gynnwys cynadleddau, perfformiadau theatr a chyngerdd a digwyddiadau chwaraeon.** Caniateir digwyddiadau dan do rheoledig o hyd at 1,000 o bobl neu 50% o gapasiti lleoliad, pa un bynnag sydd isaf, ynghyd â digwyddiadau awyr agored gyda chapasiti o naill ai 50% neu 4,000 o bobl, pa un bynnag sydd isaf. Bydd y Llywodraeth hefyd yn gwneud darpariaeth arbennig ar gyfer lleoliadau mawr, awyr agored, gyda seddau, lle gellir dosbarthu torfeydd yn ddiogel, gan ganiatáu hyd at 10,000 o bobl neu 25% o gyfanswm y capasiti eistedd, pa un bynnag sydd isaf. Yn ogystal, bydd cynlluniau peilot yn rhedeg fel rhan o'r Rhaglen Ymchwil Digwyddiadau i archwilio sut y gall digwyddiadau o'r fath gael eu cynnal heb yr angen am gadw pellter cymdeithasol gan ddefnyddio mesurau lliniaru eraill fel profi (gweler paragraffau 132 i 134).
121. Ar y cam hwn, gall priodasau, derbyniadau, angladdau a digwyddiadau coffaol gan gynnwys te angladdau gael eu cynnal gyda hyd at 30 yn bresennol. Bydd ystod ehangach o ddigwyddiadau bywyd annibynnol yn cael eu caniatáu ar y cam hwn hefyd gan gynnwys dathliadau Bar Mitzvah a bedyddiadau.
122. Ar Gam 3, bydd y Llywodraeth yn llacio cyfyngiadau ar gyswllt cymdeithasol ymhellach, gan alluogi'r cyhoedd i wneud penderfyniadau personol gwybodus. Bydd yn parhau i fod yn bwysig i bobl ystyried y risgiau drostynt eu hunain, gan ystyried a ydynt hwy a'r rhai y maent yn cwrdd â nhw wedi'u brechu neu mewn mwy o berygl.
123. Bydd y Llywodraeth yn adolygu'r dystiolaeth o effeithiolrwydd y brechlynnau yn barhaus, gan gynnwys eu heffaith ar drosglwyddiad. Cyn gynted â phosibl, a dim hwyrach na Cham 3, bydd y Llywodraeth yn diweddarau ei chynghor ar gadw pellter cymdeithasol rhwng ffrindiau a theulu, gan gynnwys cofleidio. Tan hynny, dylai pobl barhau i gadw eu pellter oddi wrth unrhyw un nad yw yn eu haelwyd neu swigen gefnogaeth, a chynnal arferion fel golchi dwylo yn rheolaidd a gadael awyr iach i mewn.
124. Bydd y Llywodraeth yn codi'r mwyafrif o gyfyngiadau cyfreithiol ar gwrdd ag eraill yn yr awyr agored, ond bydd cynulladau o fwy na 30 o bobl yn yr awyr agored yn parhau i fod yn anghyfreithlon. Y tu mewn, bydd pobl yn gallu cyfarfod yn gymdeithasol mewn grŵp o 6, neu gydag 1 aelwyd arall, er y gallai fod yn bosibl mynd ymhellach na hyn ar Gam 3 yn dibynnu ar y data. Gofynnir i bobl ddilyn y canllawiau ar sut i gwrdd yn ddiogel, er enghraifft trwy gadw maint cynulladau i leiafswm a chwrdd yn yr awyr agored lle bo hynny'n bosibl.

125. Bydd y Llywodraeth yn parhau i gynghori'r cyhoedd i weithio gartref lle y gallant. Bydd y Llywodraeth yn gweithio'n agos gyda'r Gweinyddiaethau Datganoledig a fydd â'u rheolau a'u rheoliadau priodol eu hunain ar deithio yng Ngogledd Iwerddon, yr Alban a Chymru. Bydd y Tasglu Teithio Byd-eang yn adrodd ar 12 Ebrill gydag argymhellion gyda'r nod o hwyluso dychwelyd i deithio rhyngwladol cyn gynted â phosibl wrth barhau i reoli'r risg o achosion a fewnforir ac Amrywiolion sy'n Peri Pryder. Yn dilyn hynny, bydd y Llywodraeth yn penderfynu pryd y dylai teithio rhyngwladol ailgychwyn, a fydd dim cynt na 17 Mai.

### **Dadansoddiad economaidd-gymdeithasol o Gam 3**


- Mae'r sector celfyddydau, adloniant a hamdden (ac eithrio chwaraeon, difyrion a hamdden) wedi'i daro'n galed iawn gan y pandemig. Cyn COVID-19 roedd y sector hwn werth £18.3 biliwn GVA ledled y DU (£15.5 biliwn yn Lloegr) ac roedd yn cyflogi 473,000 (400,000 yn Lloegr). Gostyngodd allbwn GVA yn y sector celfyddydau, adloniant a hamdden yn ei gyfanrwydd o'i gymharu â mis Chwefror 46% ym mis Ebrill, ac wedi hynny i 33% ym mis Tachwedd; nid yw'r allbwn wedi bod yn uwch na 77% o'r lefelau cyn y pandemig mewn dim un mis ers mis Mawrth.<sup>70</sup> Mae'r sector cyfan hefyd wedi manteisio i'r eithaf ar y cynllun ffyrlo, gyda 455,000 o weithwyr ar ffyrlo ar ei anterth yn y gwanwyn, a 293,000 ar ffyrlo ar ddiwedd mis Tachwedd. Rhwng 25 Ionawr a 7 Chwefror, roedd 44% o fusnesau yn y celfyddydau, adloniant a hamdden wedi atal masnachu dros dro.<sup>71</sup> Bydd ailagor y sectorau hyn yn caniatáu i'r busnesau hyn adfer refeniw a dod â gweithwyr yn ôl.
- Mae llacio rheolau cyswllt cymdeithasol yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar les gan y bydd pobl yn gallu cymdeithasu a chwrdd â ffrindiau a theulu y tu mewn am y tro cyntaf mewn sawl mis. Mae'r cyfyngiadau ar gyswllt cymdeithasol wedi cael effeithiau niweidiol ar iechyd meddwl a lles.

<sup>70</sup> SYG, Amcangyfrif misol CDG, DU: Rhagfyr 2020

<sup>71</sup> SYG, Mewnwelediadau Busnes a'r effaith ar economi'r DU: 11 Chwefror 2021

## Cam 4

Ffigwr 12: Cam 4



126. Ni fydd Cam 4 yn digwydd **dim cynt na 21 Mehefin**, ac o leiaf pum wythnos ar ôl Cam 3, yn dilyn adolygiad pellach o'r data a'r pedwar prawf. Fel o'r blaen, bydd y Llywodraeth yn cyhoeddi wythnos o flaen llaw a fydd y cyfyngiadau'n cael eu llacio fel y cynlluniwyd.
127. Gyda mesurau lliniaru priodol ar waith, erbyn Cam 4, mae'r Llywodraeth yn anelu i:
- Gael gwared â'r holl gyfyngiadau cyfreithiol ar gyswllt cymdeithasol**, gan gyhoeddi canllawiau cysylltiedig ar y ffordd orau i leihau'r risg o drosglwyddo ac amddiffyn ein hunain a'n hanwyliaid;
  - Ailagor gweddill y lleoliadau sydd wedi cau, gan gynnwys clybiau nos a galluogi digwyddiadau mawr, gan gynnwys perfformiadau theatr**, uwchlaw'r cyfyngiadau capasiti ar Gam 3, yn amodol ar ganlyniad y Rhaglen Ymchwil Digwyddiadau gwyddonol (a nodir ym mharagraffau 132 i 134) ac o bosibl defnyddio profion i leihau'r risg o haint, yn amodol ar werthuso pellach; a
  - Cael gwared â'r holl gyfyngiadau ar briodasau a digwyddiadau bywyd eraill**, yn amodol ar ganlyniad y Rhaglen Ymchwil Digwyddiadau gwyddonol.

128. Fel y nodwyd uchod, efallai y bydd angen rhai mesurau hyd yn oed ar ôl i bob oedolyn gael cynnig brechlyn, oherwydd ni fydd cwmipas nac effeithiolrwydd y brechlyn yn 100%. O ganlyniad, bydd cyfran sylweddol o'r boblogaeth yn parhau i fod yn agored i haint, a bydd rhai ohonynt hefyd yn agored i afiechyd difrifol a marwolaeth. Adlewyrchir hyn yn y gwaith modelu ar wahanol senarios ar gyfer llacio cyfyngiadau, sy'n dangos bod y risg o achosion pellach, cyfnodau yn yr ysbyty a marwolaethau yn parhau ar ôl i'r boblogaeth oedolion gael ei frechu, er bod modelwyr yn cynghori bod cryn ansicrwydd yn y ffigurau hyn.
129. Felly mae'r Llywodraeth yn sefydlu pedair rhaglen waith i ystyried gwahanol agweddau ar sut y dylai'r DU drin COVID-19 o'r haf ymlaen.

### **Ardystiad statws COVID**

130. Mae ardystiad statws COVID yn cynnwys defnyddio data profi neu frechu i gadarnhau bod gan bobl risg is o drosglwyddo COVID-19 i bobl eraill mewn gwahanol leoliadau.
131. Bydd y Llywodraeth yn adolygu a allai ardystiad statws COVID chwarae rôl mewn ailagor ein heconomi, lleihau cyfyngiadau ar gyswllt cymdeithasol a gwella diogelwch. Bydd hyn yn cynnwys asesu i ba raddau y byddai ardystio yn effeithiol wrth leihau risg, a'r defnyddiau posibl i alluogi mynediad i leoliadau neu lacio mesurau lliniaru Diogel o ran COVID. Bydd y Llywodraeth hefyd yn ystyried agweddau moesegol, cydraddoldeb, preifatrwydd, cyfreithiol a gweithredol y dull hwn a pha derfynau, os o gwbl, y dylid eu gosod ar sefydliadau sy'n defnyddio ardystiad. Bydd yn tynnu ar gyngor allanol i ddatblygu argymhellion sy'n ystyried unrhyw effeithiau cymdeithasol ac economaidd, a goblygiadau ar gyfer preifatrwydd a diogelwch grwpiau ac unigolion yr effeithir arnynt yn anghymesur. Bydd y Llywodraeth yn rhannu ei chasgliadau o flaen Cam 4 er mwyn helpu'r gymdeithas a'r economi i ailagor yn ddiogel.

### **Digwyddiadau mawr**

132. Mae'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) a'r Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol wedi bod yn gweithio gyda chynrychiolwyr o ddiwydiant a'r gymdeithas sifil i archwilio pryd a sut y bydd digwyddiadau gyda meintiau torf mwy, llai o gadw pellter cymdeithasol neu ddigwyddiadau mewn lleoliadau lle mae trosglwyddiad yn fwy tebygol (h.y. dan do) yn gallu dychwelyd yn ddiogel. Mae hyn yn cynnwys digwyddiadau chwaraeon, gwyliau cerddorol, priodasau mawr a chynadleddau.
133. Yn y gwanwyn bydd y Llywodraeth yn cynnal Rhaglen Ymchwil Digwyddiadau gwyddonol. Bydd hyn yn cynnwys cyfres o gynlluniau peilot a fydd yn defnyddio dulliau profi gwell a mesurau eraill i gynnal digwyddiadau gyda meintiau torf mwy a llai o bellter cymdeithasol i werthuso'r canlyniadau. Bydd y cynlluniau peilot yn dechrau ym mis Ebrill.
134. Bydd y Llywodraeth yn dod â'r canfyddiadau o bob rhan o wahanol sectorau a gwahanol leoliadau i bennu dull cyson o godi'r cyfyngiadau ar y digwyddiadau hyn. Yn dibynnu ar ganlyniad y gwaith hwn, mae'r Llywodraeth yn gobeithio gallu codi'r cyfyngiadau ar y digwyddiadau a'r sectorau hyn fel rhan o Gam 4.

## Teithio rhyngwladol

135. Nod y Llywodraeth yw gweld teithio rhyngwladol ar gyfer busnes a phleser yn dychwelyd yn ddiogel a chynaliadwy. Pan mae'n ddiogel bydd y DU unwaith eto'n dod yn gyrchfan o ddewis ar gyfer ymwelwyr rhyngwladol o bedwar ban byd. Yn y tymor byr, bydd y Llywodraeth yn parhau i amddiffyn cyflwyno'r brechlyn ac yn lliniaru yn erbyn y perygl o amrywiolion a fewnforir.
136. Gallai brechiadau gynnig llwybr i ddychwelyd i deithio rhyngwladol yn ddiogel a chynaliadwy. Unwaith y bydd mwy yn hysbys am dystiolaeth effaith brechlynnau ar drosglwyddiad a'u heffeithiolrwydd yn erbyn amrywiolion newydd, gall y Llywodraeth geisio cyflwyno system i ganiatáu i unigolion sydd wedi'u brechu deithio'n fwy rhydd yn rhyngwladol.
137. Mae'r DU yn gweithio gyda gwledydd eraill sydd wedi dechrau rhaglenni tebyg, i arwain ymdrechion byd-eang i fabwysiadu fframwaith rhyngwladol clir gyda safonau sy'n darparu cysondeb ar gyfer teithwyr a'r diwydiant fel ei gilydd. Bydd y Llywodraeth yn gwireddu hyn trwy waith parhaus gyda Sefydliad Iechyd y Byd a sefydliadau amlochrog eraill, llywyddiaeth y DU ar y G7 eleni, a thrwy weithio gyda phartneriaid rhyngwladol eraill.
138. Fodd bynnag, bydd unrhyw system o'r fath yn cymryd amser i'w rhoi ar waith. Bydd yn dibynnu'n helaeth ar well dealltwriaeth wyddonol o'r rôl y mae brechu yn ei chwarae ar leihau trosglwyddiad. Mae angen i gyflwyno system o'r fath hefyd fod yn deg a ddim rhoi pobl sydd heb gael cynnig brechlyn neu heb fynediad at frechlyn o dan anfantais ormodol. Gan mai dyna yw'r sefyllfa, nid yw'r Llywodraeth yn disgwyl i'r datrysiad hwn fod ar gael yn gyflym, ac mae cyfyngiadau fel y rhai sydd ar waith ledled y byd yn debygol o barhau yn y dyfodol agos.
139. Mae'r Llywodraeth yn cydnabod bod teithio rhyngwladol a thwristiaeth yn dod â nifer o fuddion economaidd a buddion eraill i gymunedau ledled y DU. Mae'r sector hedfan yn y DU yn gyrru allforion uniongyrchol mawr ac mae'n alluogwr hanfodol i fasnach a gweithgaredd economaidd ehangach y DU. Mae'n hwyluso tua £95 biliwn o allforion masnach y DU y tu allan i'r UE,<sup>72</sup> yn cyfrannu £22 biliwn yn uniongyrchol i economi'r DU<sup>73</sup> ac yn cefnogi hanner miliwn o swyddi. Mae teithio rhyngwladol yn arbennig o bwysig mewn dinasoedd porth ac mae'n sail i gystadleurwydd a chyrhaeddiad byd-eang economïau cenedlaethol a rhanbarthol y DU, gan gefnogi swyddi ym maes lletygarwch, ym maes manwerthu ac yn ein hamgueddfeydd, theatrau ac atyniadau ymwelwyr o'r radd flaenaf. Mae'n wir hefyd bod cyfyngiadau byd-eang wedi taro cwmnïau hedfan, meysydd awyr, cwmnïau mordeithio a chwmnïau teithio yn arbennig o galed. Bydd ailddechrau teithio diogel yn arbennig o bwysig i'r busnesau hyn.
140. Felly, mae'r Llywodraeth yn awyddus i ddod o hyd i ffyrdd i weithio'n agos gyda'r diwydiant i leddfu cyfyngiadau ar deithio rhyngwladol yn raddol ac yn gynaliadwy.
141. Bydd yr Adran Drafnidiaeth yn arwain olynydd i'r Tasglu Teithio Byd-eang, gydag uchelgais i ddatblygu fframwaith a all hwyluso mwy o deithio i mewn ac allan cyn

<sup>72</sup> <https://publications.parliament.uk/pa/cm5801/cmselect/cmtrans/745/74502.htm>

<sup>73</sup> <https://www.gov.uk/government/news/governments-multimillion-pound-support-scheme-for-airports-opens-today>

gynted ag y bydd yr amser yn iawn, gan barhau i reoli'r risg o achosion ac amrywiolion a fewnforir. Bydd hyn yn ceisio defnyddio dull sy'n seiliedig ar risg, gan ddefnyddio'r gyfres o fesurau sydd gan y Llywodraeth eisoes ar waith megis profi ac ynysu ac argymhellion gan y Tasglu Teithio Byd-eang cyntaf y llynedd.

142. Bydd y Tasglu'n adrodd i'r Prif Weinidog ac yn gweithio gyda chynrychiolwyr o sector teithio'r DU gan gynnwys cwmnïau hedfan a meysydd awyr. Bydd yn adrodd ar 12 Ebrill, gydag argymhellion gyda'r nod o hwyluso dychwelyd i deithio rhyngwladol cyn gynted â phosibl, gan barhau i reoli'r risg o achosion a fewnforir ac Amrywiolion sy'n Peri Pryder. Yn dilyn hynny, bydd y Llywodraeth yn penderfynu pryd ddylai teithio rhyngwladol aildechrau, a fydd dim cynt na Cham 3. Bydd y penderfyniad ynghylch pryd y gall teithio rhyngwladol aildechrau yn dibynnu ar y darlun epidemiolegol byd-eang a domestig, cyffredinrwydd a lleoliad unrhyw Amrywiolion sy'n Peri Pryder, cynnydd y broses o gyflwyno brechlynnau yma a thramor, a beth arall y mae'r Llywodraeth wedi'i ddysgu am effeithiolrwydd brechlynnau ar amrywiolion, a'r effaith ar drosglwyddiad, cyfnodau yn yr ysbyty a marwolaethau.
143. Yn ogystal, y llynedd, ymrwymodd y Tasglu Teithio Byd-eang i'r Llywodraeth gyhoeddi Cynllun Adfer Twristiaeth i gefnogi'r sector. Mae'r Llywodraeth yn bwriadu amlinellu cynigion yn y gwanwyn, gan gynnwys cynlluniau ar gyfer ymgyrch farchnata o'r radd flaenaf i groesawu ymwelwyr yn ôl i'r DU cyn gynted ag y bydd yn ddiogel gwneud hynny.
144. Bydd angen i'r cyfyngiadau ar deithio rhyngwladol barhau ar hyn o bryd. Fodd bynnag, yn dilyn adroddiad y Tasglu ym mis Ebrill, bydd y Llywodraeth yn penderfynu pryd y gellir cael gwared ar y rhain, a fydd dim cynt na Cham 3 (17 Mai). Bydd y penderfyniad hwn yn dibynnu ar y darlun epidemiolegol byd-eang a domestig, cyffredinrwydd a lleoliad unrhyw Amrywiolion sy'n Peri Pryder, cynnydd y broses o gyflwyno brechlynnau yma a thramor, a beth arall ydym wedi'i ddysgu am effeithiolrwydd brechlynnau ar amrywiolion, a'r effaith ar drosglwyddiad, cyfnodau yn yr ysbyty a marwolaethau.

### **Cadw pellter cymdeithasol**

145. Mae cadw pellter cymdeithasol yn anodd ac yn niweidiol i fusnesau ac, o ganlyniad, mae'n bwysig dychwelyd i fywyd sydd mor agos at normal cyn gynted â phosibl. Cyn Cam 4, wrth i ni ddeall mwy am effaith brechlynnau ar drosglwyddo a bod cyfran lawer mwy o'r boblogaeth wedi'i brechu, bydd y Llywodraeth yn cwblhau adolygiad o fesurau cadw pellter cymdeithasol a mesurau tymor hir eraill sydd wedi'u rhoi ar waith i gyfyngu ar drosglwyddo. Bydd canlyniadau'r adolygiad yn helpu i lywio penderfyniadau ar yr amseriad a'r amgylchiadau y gellir codi'r rheolau ar 1m+, masgiau wyneb a mesurau eraill. Bydd yr adolygiad hefyd yn llywio canllawiau ar weithio gartref - dylai pobl barhau i weithio gartref lle y gallant nes bod yr adolygiad hwn wedi'i gwblhau.

**CAM 1**

8 Mawrth

29 Mawrth

**ADDYSG****8 MAWRTH**

- Ysgolion a cholegau ar agor i'r holl fyfyrwyr
- Cyrsiau Addysg Uwch Ymarferol.

**CYSWLLT CYMDEITHASOL****8 MAWRTH**

- Hamdden neu ymarfer corff yn yr awyr agored gyda phobl o'r aelwyd neu un person arall.
- Aelwyd yn unig dan do.

**29 MAWRTH**

- Y Rheol 6 neu ddwy aelwyd y tu allan.
- Aelwyd yn unig dan do.

**CAM 2**

Dim cynharach na 12 Ebrill

o leiaf 5 wythnos wedi cam 1

**ADDYSG**

- Fel y cam blaenorol

**CYSWLLT CYMDEITHASOL**

- Y Rheol 6 neu ddwy aelwyd y tu allan.
- Aelwyd yn unig dan do.

**BUSNES A GWEITHGAREDDAU****8 MAWRTH**

- Gofal cofieidiol, gan gynnwys chwaraeon, i holl blant

**29 MAWRTH**

- Caniateir chwaraeon awyr agored a drefnwyd (plant ac oedolion)
- Chwaraeon awyr agored a chyfleusterau hamdden
- Pob gweithgarwch i blant yn yr awyr agored
- Grwpiau rhiant a phlentyn awyr agored (hyd at 15 o rieni)

**BUSNES A GWEITHGAREDDAU**

- Holl fanwerthu
- Gofal personol
- Llyfrgelloedd a chanolfannau cymunedol
- Y rhan fwyaf o atyniadau awyr agored
- Hamdden dan do gan gynnwys campfeydd (defnydd unigol yn unig)
- Llety hunan-gynhaliol
- Pob gweithgarwch i blant
- Lletygarwch awyr agored
- Grwpiau rhiant a phlentyn dan do (hyd at 15 o rieni)

**TEITHIO****8 MAWRTH**

- arhoswch gartref
- dim gwyliau

**29 MAWRTH**

- cyfyngu ar deithio
- dim gwyliau

**TEITHIO**

- Aros dros nos domestig (aelwyd yn unig)
- Dim gwyliau rhyngwladol

**DIGWYDDIADAU**

- angladdau (30)
- Priodasau a gwylnosau (6)

**DIGWYDDIADAU**

- Angladdau (30)
- Priodasau, gwylnosau, derbyniadau (15)
- Digwyddiadau arbrolfol



**CAM 3**

Dim cynharach na 17 Mai

O leiaf 5 wythnos wedi Cam 2

**ADDYSG**

- Fel y cam blaenorol

**CYSWLLT CYMDEITHASOL**

- Dim mwy na 30 o bobl yn yr awyr agored
- Y Rheol 6 neu ddwy aelwyd dan do (yn destun adolygiad)

**BUSNES A GWEITHGAREDDAU**

- Lletygarwch dan do
- Adloniant ac atyniadau dan do
- Chwaraeon dan do a drefnwyd (oedolion)
- Llety arall o unrhyw fath
- Diddanwch arall awyr agored o unrhyw fath (gan gynnwys perfformiadau)

**TEITHIO**

- Aros dros nos domestig
- Teithio rhwngwladol (yn destun adolygiad)

**DIGWYDDIADAU**

- Digwyddiadau bywyd mwyaf arwyddocaol (30)
- Digwyddiadau dan do: 1,000 neu 50%
- Digwyddiadau awyr agored gyda seddau: 10,000 neu 25%
- Digwyddiadau awyr agored eraill: 4,000 neu 50%

**CAM 4**

Dim cynharach na 12 Mehefin

O leiaf 5 wythnos wedi Cam 3

Y cyfan yn destun adolygiad

**ADDYSG**

- Fel y cam blaenorol

**CYSWLLT CYMDEITHASOL**

- Dim terfyn oedran

**BUSNES A GWEITHGAREDDAU**

- Busnesau sy'n weddill, gan gynnwys clybiau nos

**TEITHIO**

- Aros dros nos domestig
- Teithio rhwngwladol

**DIGWYDDIADAU**


- Dim terfyn oedran ar ddigwyddiadau bywyd
- Digwyddiadau ar raddfa fwy.

## 4. CADW POBL YN DDIOGEL AC YMATEB I FYGYTHIADAU

### Ymddygiad

146. Hyd yn oed wrth i'r cyfyngiadau gael eu codi, mae'n hanfodol bod pawb yn parhau â'r arferion da sy'n lleihau trosglwyddiad: cofio 'dwylo, wyneb, lle' a gadael awyr iach i mewn, cael prawf ar yr arwydd cyntaf o symptomau a hunanynysu os yw'r prawf yn bositif. Mae'n fwy diogel i gwrdd yn yr awyr agored ac i osgoi cynulliadau mawr.
147. Rhaid i fusnesau hefyd barhau i gymryd rhagofalon angenrheidiol wrth i'r cyfyngiadau lacio. Gwnaeth y mwyafrif llethol o fusnesau a arhosodd ar agor yn ystod y pandemig wneud hynny mewn ffordd ddiogel o ran COVID. Bydd y Llywodraeth yn diweddarau'r canllawiau diogel o ran COVID i ddarparu cyngor pellach ar sut y gall busnesau wella llif awyr iach mewn gweithleoedd dan do a chyflwyno profion rheolaidd i leihau'r risg. Bydd awdurdodau lleol hefyd yn parhau i gynnig cyngor.
148. Wrth i Loegr symud trwy gamau'r map trywydd, bydd y Llywodraeth yn parhau i fonitro'r pwerau gorfodi presennol a'u haddasu os oes angen. Gall yr heddlu ac awdurdodau lleol weithredu yn erbyn pobl sy'n torri'r gyfraith a rhoi cosbau, ar gyfer y busnesau hynny nad ydyn nhw'n gweithredu'n ddiogel.

Ffigwr 13: Ymddygiad diogel



## Profi, Orlhain ac Ynysu

149. Bydd y system Profi, Orlhain ac Ynysu yn helpu i gefnogi lleddfu cyfyngiadau cymdeithasol ac economaidd ac yn cadw pobl yn ddiogel.
150. Bellach mae gan wasanaeth Profi ac Orlhain GIG Lloegr, gan weithio mewn partneriaeth ag Iechyd Cyhoeddus Lloegr, awdurdodau lleol, busnesau, ysgolion, prifysgolion ac eraill, y capasiti i gynnal oddeutu 800,000 o brofion PCR (adwaith cadwynol polymerasau) y dydd, ledled y DU<sup>74</sup>. Wrth i'r feirws ddod yn llai cyffredin, bydd y system Profi, Orlhain ac Ynysu yn dod yn bwysicach fyth wrth adnabod brigiadau lleol yn gyflym, gan ganiatáu i'r Llywodraeth gymryd camau cyflym i'w rheoli ac ymateb i Amrywiolion sy'n Peri Pryder newydd.

### Y system Profi, Orlhain ac Ynysu bresennol

Mae dros 80 miliwn o brofion PCR wedi'u cynnal - mwy nag un i bob person sy'n byw yn y DU.<sup>75</sup> Bellach mae mwy nag 85% o brofion personol yn dychwelyd canlyniadau drannoeth, gwelliant o fwy na 52% ers mis Rhagfyr, ac mae'r pellter canolrifol a deithiwyd i un o dros 850 o safleoedd profi oddeutu 2 i 3 milltir.<sup>76</sup>

Nid oes gan oddeutu 1 mewn 3 o bobl gyda COVID-19 unrhyw symptomau, mae'r Llywodraeth wedi sefydlu rhaglen brofi asymptomatig eang. Mae'r rhaglen hon yn cynnal tua 2.4 miliwn o brofion cyflym bob wythnos, gan gynnwys i holl staff y GIG a Gofal Cymdeithasol Oedolion ac, ers mis Ionawr, i holl staff ysgolion.

Mae perfformiad olrhain wedi gwella hefyd. Rhwng 4 a 10 Chwefror, cysylltwyd â 93.6% o gysylltiadau agos i roi gwybod iddynt fod rhaid iddynt hunanynysu, o'i gymharu â 60% ym mis Hydref. Cysylltwyd â dros 90% o fewn 72 awr i'r unigolyn yr oeddynt mewn cyswllt agos ag ef brofi'n bositif. Mae'r gwaith hwn yn cael ei wneud mewn partneriaeth agos ag awdurdodau lleol, gyda dros 300 o bartneriaethau olrhain cysylltiadau lleol wedi'u sefydlu.

Mae ap Profi ac Orlhain COVID-19 y GIG wedi'i lawrlwytho dros 21 miliwn o weithiau ac, ers mis Medi, mae wedi rhoi gwybod i dros 1.7 miliwn o ddefnyddwyr ledled Cymru a Lloegr bod angen iddynt hunanynysu.<sup>77</sup> Mae datblygiadau'n parhau mewn ymateb i adborth gan ddefnyddwyr, gan gynnwys cyflwyno rhybudd lleoliad 'archebu prawf'. Mae'r Ap hefyd yn helpu'r cyhoedd i ddeall y ffordd orau i amddiffyn eu hunain, yn ei gwneud hi'n hawdd i ddefnyddwyr gofrestru mewn lleoliadau ac yn anfon rhybuddion y gallai defnyddwyr fod wedi bod yn agored i COVID-19 mewn lleoliad maen nhw wedi ymweld ag ef.

Mae'r Llywodraeth hefyd wedi defnyddio offer newydd i gynorthwyo pobl i hunanynysu, gan gynnwys sicrhau bod £110 miliwn ar gael ar gyfer y Taliad Cymorth Profi ac Orlhain.

<sup>74</sup> <https://coronavirus.data.gov.uk/details/testing>

<sup>75</sup> <https://coronavirus.data.gov.uk/details/testing>

<sup>76</sup> <https://www.gov.uk/government/news/nearest-testing-site-now-on-average-under-2-miles-away>

<sup>77</sup> <https://www.gov.uk/government/news/nhs-covid-19-app-alerts-17-million-contacts-to-stop-spread-of-covid-19>

## Ymateb i Amrywiolion sy'n Peri Pryder ac ymyrryd yn lleol

151. Mae pob feirws yn mwttadu wrth iddo atgynhyrchu i greu 'amrywiolion' newydd. Nid yw'r rhan fwyaf o fwtadiadau yn cael effaith ac nid ydynt yn peri pryder. Fodd bynnag, mae rhai yn peri risg uwch i iechyd y cyhoedd oherwydd newidiadau mewn trosglwyddadwyedd, difrifoldeb heintiau, y gallu i osgoi ymatebion imiwnedd, neu dueddiad y feirws i ymateb i driniaethau therapiwtig. Gellir canfod yr amrywiolion hyn o fewn y wlad - fel yn achos yr amrywiolyn B.1.1.7 - neu amrywiolion a fewnforir o dramor.
152. Mae'r DU yn arweinydd byd-eang mewn dilyniannu genomau, sydd mewn achosion positif yn caniatáu adnabod Amrywiolion sy'n Peri Pryder, ac mae'n parhau i gynyddu ei gapasiti. Mae'r Llywodraeth hefyd yn gweithio gyda darparwyr diagnosteg i addasu profion PCR i adnabod Amrywiolion sy'n Peri Pryder ar ôl iddynt gael eu hadnabod. Dylai hyn wedi'i gyfuno â'r dilyniannu genomau cyfan, ganiatau i fwtadiadau gael eu canfod yn gynt a chaniatau i gamau gael eu cymryd. Bydd y DU hefyd yn darparu cefnogaeth dilyniannu i wledydd eraill pe bai ei angen arnynt, gan helpu i olrhain amrywiolion ble bynnag y maent yn ymddangos yn y byd ac yn ei dro siapio polisïau ffiniau'r DU. Er gwaethaf y cynnydd hwn, mae'r risgiau sy'n cael eu peri gan Amrywiolion sy'n Peri Pryder yn parhau yn sylweddol. Efallai y bydd yn cymryd peth amser i adnabod amrywiolyn newydd a phenderfynu ar faint y risg a berir ganddo, ac yn ystod y cyfnod hwnnw gallai ledaenu trwy'r gymuned, gan ei gwneud hi'n hanfodol bod y Llywodraeth yn gallu gweithredu mewn ffordd synhwyrol a chymesur gan fod y dystiolaeth yn dal i ddod i'r amlwg.
153. Lle adnabyddir Amrywiolyn peryglus sy'n Peri Pryder ac sy'n debygol o gyflwyno risg gwirioneddol i'r rhaglen frechu neu iechyd y cyhoedd, bydd y Llywodraeth yn ymgymryd â dull gweithredu hynod ragofalus, gan weithredu'n gyflym i fynd i'r afael â brigiad o achosion. Mae'r Llywodraeth yn datblygu pecyn cymorth gwell o fesurau i fynd i'r afael ag Amrywiolion sy'n Peri Pryder, gan gynnwys profion PCR ymchwydd, gwell system olrhain cysylltiadau, cyfathrebu a gorfodi wedi'i dargedu
154. Ni all y Llywodraeth ddiystyru ailosod cyfyngiadau economaidd a chymdeithasol ar lefel leol neu ranbarthol os yw tystiolaeth yn awgrymu eu bod yn angenrheidiol i reoli neu atal amrywiolion sydd ddim yn ymateb i'r brechlyn.
155. Lle mae ardal yn gweld twf yn y feirws a allai roi'r GIG lleol dan bwysau anghynnaladwy, bydd y Llywodraeth hefyd yn gweithredu'n gyflym. Mae awdurdodau lleol ac arweinwyr iechyd cyhoeddus wedi bod ar flaen y gad yn yr ymdrechion i fynd i'r afael â'r feirws yn ein cymunedau. Tra bod y Llywodraeth bellach mewn sefyllfa i edrych tuag at lacio cyfyngiadau, mae'n bwysig parhau i gefnogi awdurdodau lleol i barhau i wneud eu gwaith iechyd cyhoeddus pwysicaf wrth ymateb i'r feirws dros y misoedd nesaf.
156. Felly mae'r Llywodraeth yn cyhoeddi cyllid pellach o £400 miliwn ar gyfer y Gronfa Rheoli Brigiadau (COMF) o 1 Ebrill, gan fynd â'r cyfanswm o gefnogaeth COMF ar draws 2020-21 a 2021-22 i £2 biliwn. Mae hyn er mwyn ymdrin â gweithgareddau iechyd cyhoeddus pellach yn 2021-22, a chyhoeddir manylion pellach maes o law. Ym mis Mawrth, bydd y Llywodraeth yn cyhoeddi fframwaith rheoli achosion COVID-19 wedi'i ddiweddarau ar gyfer ardaloedd lleol, a fydd yn nodi sut y bydd partneriaid cenedlaethol a lleol yn parhau i weithio gyda'r cyhoedd ar lefel leol i atal, cynnwys a

rheoli brigiadau o achosion. Bydd hyn yn cynnwys manylion y pecyn cymorth gwell o fesurau i fynd i'r afael ag Amrywiolion sy'n Peri Pryder.

## Profi: mynd ymhellach

**Tabl 3: Profi: mynd ymhellach**

| Llinyn profi                                                                                                                        | Statws                                                                                 |
|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|----------------------------------------------------------------------------------------|
| <b>Profi mewn gweithleoedd:</b> profion ddwywaith yr wythnos i'r rheiny nad ydynt yn gallu gweithio gartref.                        | Profion ar gael i bawb sydd wedi gorfod gadael eu cartref ar gyfer gwaith.             |
| <b>Profi cymunedol:</b> mae profi dan arweiniad awdurdodau lleol ar gael ar safleoedd profi asymptomatig yn barhaus.                | Profi ar waith mewn dros 260 o awdurdodau lleol yn Lloegr.                             |
| <b>Staff rheng flaen y GIG:</b> profion cartref ddwywaith yr wythnos.                                                               | Profi ar waith.                                                                        |
| <b>Cartrefi gofal:</b> tri phrawf yr wythnos ar gyfer staff, profion PCR misol ar gyfer preswylwyr.                                 | Profi ar waith.                                                                        |
| <b>Gofal ychwanegol a llety â chymorth risg uchel:</b> tri phrawf yr wythnos ar gyfer staff, profion PCR misol ar gyfer preswylwyr. | Bydd profi ar waith erbyn diwedd mis Chwefror.                                         |
| <b>Gofalwyr cartref:</b> profion wythnosol.                                                                                         | Profi ar waith.                                                                        |
| <b>Ysgolion a cholegau:</b> profion ddwywaith yr wythnos ar gyfer athrawon a disgyblion ysgolion uwchradd a cholegau.               | Profi ar waith i athrawon - bydd yn cael ei gyflwyno'n llawn i ddisgyblion o 8 Mawrth. |
| <b>Prifysgolion:</b> profion ddwywaith yr wythnos ar gyfer yr holl fyfyrwyr a staff sydd ar safleoedd ar hyn o bryd.                | Profi ar waith.                                                                        |
| <b>Cludwyr:</b> profion i alluogi teithio trawsffiniol.                                                                             | Profi ar waith.                                                                        |
| <b>Lleoliadau eraill</b> (yn cynnwys carchardai a hosbisau): cymysgedd o brofion PCR a phrofion cyflym.                             | Profi ar waith.                                                                        |

157. Mae profion cyflym mewn lleoliadau addysg bellach wedi'u hen sefydlu, gyda mwy na 3 miliwn o brofion COVID-19 cyflym wedi'u cynnal mewn ysgolion a cholegau yn Lloegr ers 4 Ionawr. Mae hyn yn cynnwys dau brawf ar gyfer disgyblion ysgol uwchradd a myfyrwyr coleg sydd wedi dychwelyd, a phrofion rheolaidd i'r holl staff. Mewn prifysgolion, mae 600,000 o brofion wedi'u cynnal ar y safle ers y llynedd; anogir prifysgolion i gynnig profion ddwywaith yr wythnos i bawb sy'n bresennol.<sup>78</sup> Pan fydd mwy o ddisgyblion a myfyrwyr yn dychwelyd i addysg wyneb yn wyneb mewn ysgolion a cholegau ar 8 Mawrth bydd y Llywodraeth yn cyflwyno profion ddwywaith yr wythnos i ddisgyblion ysgolion uwchradd a myfyrwyr coleg, gan ddechrau gyda phrofion ar y safle yn ystod y pythefnos cyntaf ac yna profion cartref. Bydd pob aelwyd sydd â phlant oed ysgol, aelodau o'u swigod cefnogaeth a gofal plant, a'r rheiny mewn galwedigaethau cysylltiedig hefyd yn cael eu hannog i gael eu profi'n rheolaidd.
158. Ym mis Ionawr, cynigiodd y Llywodraeth brofion asymptomatig rheolaidd i bobl sy'n gorfod gadael cartref i weithio, i leihau risg i unigolion a chadw busnesau ar agor. Mae ymdrech fawr ar draws y sector preifat a chyhoeddus eisoes wedi arwain at ddiddordeb gan dros 12,000 o sefydliadau yn y DU, gyda dros dair miliwn o brofion wedi'u dosbarthu i gyflogwyr. Bydd cynnig y Llywodraeth o gitiau profi am ddim ar gyfer staff sydd ddim yn gallu gweithio gartref yn cael ei ymestyn i ddiwedd mis Mehefin. Bydd angen i sefydliadau, gan gynnwys y rheiny sydd heb agor eto, fynegi diddordeb cyn 31 Mawrth. Bydd y Llywodraeth yn parhau i adolygu hyn wrth i'r brechlyn gael ei ddefnyddio a bydd yn ymchwilio i sut y gellid defnyddio profion i gefnogi'r adferiad.

### **Astudiaeth achos profi yn y gweithle:**

*Roedd Apetito ymhlith y cyntaf i fabwysiadu profi yn y gweithle. Er bod y profion yn wirfoddol, mae ymgysylltu'n gynnar â staff wedi golygu cyfradd cyfranogi uchel iawn: dim ond un aelod o'r garfan o staff a wahoddwyd i ddechrau sydd wedi dewis peidio â chymryd rhan. Ar ôl dechrau profi 500 o staff sydd ynghlwm â gweithgynhyrchu a dosbarthu, mae'r cwmni nawr wedi ehangu hynny i'w gyrwyr cludo. Ar ôl cynnal dros 5,000 o brofion, mae'r lefel positifedd profion oddeutu 1.2% - sy'n golygu eu bod wedi dod o hyd i 66 o achosion asymptomatig na fyddent wedi'u canfod fel arall, gan ganiatáu i'w busnes barhau i weithredu'n effeithiol, a pharhau i ddarparu prydau bwyd i grwpiau agored i niwed, gyda mwy o ddiogelwch i gwsmeriaid a staff.*

159. Mae'r Rhaglen Brofi Gymunedol hefyd yn cael ei hymestyn tan o leiaf ddiwedd mis Mehefin. Wedi'i lansio ym mis Rhagfyr 2020, fel partneriaeth rhwng llywodraeth genedlaethol a llywodraeth leol, ehangwyd y cynllun profi cyflym hwn ym mis Ionawr i bob awdurdod lleol yn Lloegr ei ddefnyddio ac mae bron pob un bellach wedi ymuno. Mae hyn yn galluogi profion asymptomatig ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus lleol, busnesau bach, pobl hunangyflogedig a chymunedau sydd wedi cael eu heffeithio'n anghymesur gan y feirws.

<sup>78</sup> <https://www.gov.uk/government/news/over-3-million-rapid-coronavirus-tests-in-schools-and-colleges>

160. Bydd model Casglu Cymunedol newydd yn cael ei lansio fel y gall teuluoedd, busnesau bach a'r hunangyflogedig - sydd wedi'i chael hi'n anoddach cael gafael ar brofion rheolaidd - gael profion cyflym o rai o safleoedd y Llywodraeth ac awdurdodau lleol. Cyn bo hir, bydd pobl hefyd yn gallu cael profion llif unffordd cyflym yn syth i'w cartref, gan ganiatáu iddynt wneud profion pan fydd yn fwyaf cyfleus iddyn nhw. Bydd hyn yn rhoi mynediad parod at brofion llif unffordd cyflym i'r rheiny sydd angen mynediad at brofion rheolaidd.
161. Bydd gwasanaeth Profi ac Orlhain y GIG yn parhau i wella'r system Orlhain, yn seiliedig ar adborth gan ddefnyddwyr a phartneriaethau cryfach fyth gydag awdurdodau lleol.
162. Bydd y Llywodraeth hefyd yn ehangu'r gefnogaeth sydd ar gael i bobl sy'n hunanynysu. Er bod hunanynysu yn hanfodol bwysig i atal lledaeniad y clefyd, nid yw byth yn hawdd i'r rhai yr effeithir arnynt. Bydd y Cynllun Taliadau Cymorth Profi ac Orlhain yn parhau i'r haf, ac yn cael ei ehangu i gwmpasu rhieni sy'n methu â gweithio oherwydd eu bod yn gofalu am blentyn sy'n hunanynysu, a bydd y cyllid sydd ar gael i awdurdodau lleol fel rhan o hyn i wneud taliadau cymorth dewisol yn cael ei gynyddu i £20 miliwn y mis. Bydd mwy o arian ar gael hefyd i helpu awdurdodau lleol i sicrhau bod pobl sy'n hunanynysu yn cael mynediad at gymorth ymarferol, fel danfoniadau bwyd neu help gyda'u cyfrifoldebau gofalu, a chefnogaeth ar gyfer lles. Yn ogystal, bydd y Gwasanaeth Cyflenwi Meddyginiaethau a sefydlwyd i helpu pobl sy'n hynod agored i niwed yn glinigol yn cael ei ymestyn i ddarparu danfoniadau hanfodol ar gyfer pobl sy'n hunanynysu sydd heb fynediad at ddewisiadau amgen.

## Adeiladu system Profi, Orlhain ac Ynysu ar gyfer y dyfodol

163. Gan y bydd gan brofion rheolaidd ran allweddol i'w chwarae yn y dyfodol, mae'r Llywodraeth yn gweithio i sefydlu marchnad breifat effeithiol ar gyfer profion. Rhaid i ddarparwyr fodloni fframwaith rheoleiddio fel y gall y cyhoedd fod â hyder yn y profion hyn a bydd y Llywodraeth yn sefydlu prosesau dilysu newydd ar gyfer profion newydd i'r farchnad breifat.
164. Mewn amser, mae'n bosib y gallai profi fod yn ddewis amgen dichonadwy yn lle hunanynysu ar gyfer cysylltiadau pobl sydd wedi'u heintio. Mae ymddangosiad amrywiolion newydd wedi golygu nad yw hynny'n ddichonadwy eto, ond mae'r rhaglen profi yn cael ei pharatoi i gyflwyno hyn pan fydd yr amser yn iawn. Bydd y gwerthusiad, sydd hyd yma wedi cynnwys tua 12,000 o bobl ar draws 21 o sefydliadau a 180 o safleoedd, yn cael ei ehangu yn ystod y misoedd nesaf ac yn cynnwys rhaglen ar raddfa fawr gydag ysgolion.



## Mesurau ar y ffin

165. Mae rheoli'r perygl o achosion newydd yn dod i mewn i'r DU wedi dod yn fwy pwysig gyda'r cynnydd o amrywiolion newydd ledled y byd. Mae gan y DU eisoes cyfres gref o fesurau ar waith. Rhaid i bob teithiwr, o unrhyw wlad, llenwi ei Ffurflen Lleoli Teithwyr a chydymffurfio â rhaglen helaeth o brofi. Bellach mae'n ofynnol i bob teithiwr sy'n dod i mewn ddarparu prawf o ganlyniad prawf negyddol cyn gadael, wneud prawf ar ddiwrnodau dau ac wyth ar ôl cyrraedd y DU a chyn iddynt orffen eu cyfnod ynysu. Mae dilyniannu genomig yn cael ei wneud ar bob prawf positif er mwyn ceisio dal unrhyw amrywiolion newydd.
166. Yn ogystal, yr unig deithwyr a ganiateir i'r wlad o wledydd ar y "rhestr goch" (y rhai sy'n peri'r risg uchaf o amrywiolion newydd wedi'u mewnfario) fydd preswylwyr y DU ac Iwerddon. Ar ôl iddynt gyrraedd rhaid iddynt ynysu am 10 diwrnod yn y Gwasanaeth Cwarantîn wedi'i Reoli newydd. Maen nhw hefyd yn destun yr un gofynion profi â phobl eraill sy'n cyrraedd. Mae gan y Llywodraeth hefyd set gref o wiriadau ar waith - mewn partneriaeth â chludwyr - i sicrhau bod pawb yn cydymffurfio â'r gofynion hyn ac yn gwneud eu rhan i gadw pobl yn ddiogel wrth deithio i'r DU.
167. Mae'r mesurau hyn yn cynnig amddiffyniad yn y cyd-destun presennol. Bydd y Llywodraeth yn gweithredu'n gyflym os oes tystiolaeth yn dod i'r amlwg sy'n awgrymu bod angen ychwanegu mwy o wledydd at y 'rhestr goch'. Yn yr un modd, os daw tystiolaeth i'r amlwg bod brechlynnau a ddefnyddir yn y DU yn ddigon effeithiol yn erbyn Amrywiolion sy'n Peri Pryder (neu os yw'r sefyllfa yn y gwledydd hynny yn newid) gellir tynnu gwledydd oddi ar y rhestr hefyd.
168. Mae'r drefn hon yn caniatáu i'r DU reoli'r perygl o fewnfario achosion newydd ac amrywiolion newydd. Fodd bynnag, daw pwynt lle bydd angen disodli'r cyfyngiadau hyn gan fodel mwy hwylus, gan wneud mwy o ddefnydd o asedau fel y Cynllun Profi i Ryddhau, sy'n caniatáu i bobl sy'n cyrraedd ddod â'r cyfnod ynysu i ben yn gynnar os ydyn nhw'n talu am brawf COVID-19 preifat. Bydd adroddiad y Tasglu Teithio Bydeang yn hanfodol i hyn, ac ar ôl hynny bydd y Llywodraeth yn penderfynu pryd y dylai teithio rhyngwladol ailddechrau, a fydd dim cynt na 17 Mai.

## 5. CYMORTH ECONOMAIDD A CHYMDEITHASOL

169. Ers ymddangosiad COVID-19, mae'r Llywodraeth wedi cymryd camau cyflym i achub bywydau, cefnogi'r GIG a lliniaru difrod i'r economi. Mae'r Llywodraeth wedi sefydlu pecyn economaidd na welwyd ei debyg o'r blaen sydd wedi rhoi cefnogaeth a sicrwydd i fusnesau ac unigolion yn ystod y pandemig.
170. Mae'r Llywodraeth wedi gwario dros £280 biliwn i gefnogi swyddi pobl, busnesau a gwasanaethau cyhoeddus ledled y DU.<sup>79</sup> Yn y Diweddariad Economaidd yn yr Haf, cyhoeddodd y Llywodraeth gefnogaeth bellach i fusnesau, unigolion a gwasanaethau cyhoeddus, ac mewn ymateb i'r cyfyngiadau iechyd cyhoeddus a roddwyd ar waith dros y gaeaf, cyhoeddodd y Llywodraeth fesurau ychwanegol yng Nghynllun Economi'r Gaeaf a'r Adolygiad o Wariant.
171. Ymateb economaidd blaenllaw'r Llywodraeth i COVID-19 yw'r pecyn mwyaf o gymorth brys ers y rhyfel. Fel yr amlygwyd gan yr OBR a Banc Lloegr, heb y camau a gymerwyd gan y Llywodraeth, byddai'r rhagolygon yn waeth o lawer.
172. Er enghraifft, mae'r cynllun ffyrlo wedi helpu i dalu cyflogau pobl mewn 9.9 miliwn o swyddi yn y DU, gyda £46.4 biliwn yn cael ei dalu mewn grantiau, gan amddiffyn swyddi a allai fod wedi eu colli fel arall, tra bod grantiau ar gyfer yr hunangyflogedig wedi talu allan £18.5 biliwn.<sup>80</sup> <sup>81</sup> Mae'r Llywodraeth hefyd wedi darparu ystod eang o fenthyciadau, grantiau busnes, rhyddhad ardrethi busnes, toriadau treth, gwyliau morgais, mwy o gymorth lles, gohirio treth, a'r cynlluniau Kickstart a Restart.
173. Mae hyn i gyd yn rhan o Gynllun cynhwysfawr ar gyfer amddiffyn swyddi, a chreu a chefnogi cyflogaeth ym mhob rhanbarth a chenedl yn y DU. Wrth i'r sefyllfa iechyd cyhoeddus ddatblygu gydag amrywiolion newydd yn dod i'r amlwg, mae'r Llywodraeth hefyd wedi sicrhau bod gan fusnesau a phobl sicrwydd trwy ymestyn y cynllun ffyrlo a grantiau busnes.

<sup>79</sup> [https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/938052/SR20\\_Web\\_Accessible.pdf](https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/938052/SR20_Web_Accessible.pdf)

<sup>80</sup> <https://www.gov.uk/government/collections/hmrc-coronavirus-covid-19-statistics#coronavirus-job-retention-scheme>

<sup>81</sup> <https://www.gov.uk/government/collections/hmrc-coronavirus-covid-19-statistics#self-employment-income-support-scheme> (total of tranche 1,2,3)

## Cymorth economaidd

174. Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i wneud beth bynnag sydd ei angen i gefnogi'r wlad trwy'r pandemig COVID-19 a bydd cefnogaeth yn parhau.
175. Bydd y Gyllideb ar 3 Mawrth yn amlinellu'r cam nesaf yng Nghynllun Swyddi'r Llywodraeth gan gynnwys manylion pellach am gymorth economaidd i amddiffyn swyddi a bywoliaethau ledled y DU.
176. Bydd y dull yn adlewyrchu'r camau a nodir yn y map trywydd: wrth i'r cyfyngiadau lacio ac wrth i'r economi gael ei hailagor yn raddol ac yn ddiogel, bydd y Llywodraeth yn teilwra lefel y gefnogaeth i unigolion a busnesau yn ofalus i adlewyrchu'r amgylchiadau sy'n newid.
177. Er gwaethaf lefelau digynsail o gymorth ariannol, mae'r Llywodraeth hefyd yn cydnabod na fydd yn bosibl gwarchod pob swydd neu fusnes. Felly bydd y Llywodraeth yn parhau i helpu pobl i ddod o hyd i swyddi newydd, ennill sgiliau newydd neu ddechrau busnesau newydd wrth i ni adeiladu'n ôl yn well o'r pandemig.
178. Llwyddodd y Llywodraeth i ddarparu cefnogaeth economaidd sylweddol oherwydd i'r DU fynd i mewn i'r argyfwng hwn gyda chyllid cyhoeddus cryf. Fel y mae Canghellor y Trysorlys wedi'i nodi o'r blaen, nid yw'n gynaliadwy benthyca ar y lefel gyfredol hon dros y tymor canolog. Mae hyn yn golygu bod gan y Llywodraeth gyfrifoldeb, unwaith y bydd yr economi'n gwella, i ddychwelyd i sefyllfa ariannol gynaliadwy.

## Cymorth i'r rhai mwyaf agored i niwed

179. Mae tua 4 miliwn o bobl yn Lloegr wedi'u nodi fel Eithriadol o Agored i Niwed yn Glinigol ac felly mewn perygl mawr o salwch difrifol neu farwolaeth pe byddent yn cael eu heintio â COVID-19. Mae hyn yn cynnwys 1.7 miliwn o unigolion sy'n Eithriadol o Agored i Niwed yn Glinigol a gafodd eu hadnabod trwy fodel rhagfynegiad risg newydd, QCovid, sy'n ystyried ffactorau iechedd a phersonol, ac sy'n gallu adnabod rhywun sydd â risg uwch o COVID-19.<sup>82</sup> Blaenoriaethwyd y grŵp hwn ar gyfer brechu.
180. Ar hyn o bryd, cynghorir pawb sydd wedi cael gwybod eu bod yn Eithriadol o Agored i Niwed yn Glinigol i ddilyn arweiniad gwarchod, gan gyfyngu amser y tu allan i'r cartref i ymarfer corff ac i fynd i apwyntiadau meddygol yn unig. Mae yna gyngor ar wahân i bobl sy'n Eithriadol o Agored i Niwed yn Glinigol sy'n byw yn yr Alban, Cymru neu Ogledd Iwerddon. Mae'r Llywodraeth yn rhagweld na fydd angen cynghori pobl i warchod y tu hwnt i ddiwedd mis Mawrth 2021. Bydd y Llywodraeth yn cadarnhau'r cyngor a'r camau nesaf yn nes at yr amser i gadw pobl sy'n Eithriadol o Agored i Niwed yn Glinigol yn ddiogel.
181. Mae yna grŵp arall o bobl sydd wedi'u nodi fel rhai sy'n Agored i Niwed yn Glinigol, ac o'r herwydd mewn risg glinigol gymedrol o salwch difrifol neu farwolaeth pe byddent yn cael eu heintio â COVID-19. Mae pobl sy'n Eithriadol o Agored i Niwed yn Glinigol neu'n Agored i Niwed yn Glinigol yn cael eu blaenoriaethu ar gyfer brechu.

<sup>82</sup> Ymhlith y ffactorau mae: oedran, ethnigrwydd a BMI, yn ogystal â rhai cyflyrau a thriniaethau meddygol.

Disgwyliad y Llywodraeth yw y bydd brechu yn cynnig mwy o ddiogelwch i bobl sy'n agored i niwed rhag mynd yn ddifrifol wael. Mae'r Llywodraeth yn ystyried y gefnogaeth hir dymor a allai fod ei hangen ar gyfer y rhai sy'n Eithriadol o Agored i Niwed yn Glinigol, yn enwedig i'r rheini na ellir eu brechu neu nad ydynt yn cael cynnydd sylweddol mewn imiwnedd o'r brechlyn.

## Cymorth i breswylwyr a staff cartrefi gofal

182. Mae'r Llywodraeth yn cydnabod ymdrech aruthrol pawb sy'n gweithio ym maes Gofal Cymdeithasol i Oedolion sydd wedi gweithio'n ddiflino dros y flwyddyn ddiwethaf i amddiffyn rhai o'r rhai sydd fwyaf agored rhag COVID-19. Ni ellir tanamcangyfrif y pwysau ychwanegol a wynebwyd eleni. Dyna pam, ochr yn ochr ag ymdrechion helaeth ar lefel leol, mae'r Llywodraeth wedi camu i'r adwy i gefnogi'r sector gofal cymdeithasol a'r gweithlu. Mae hyn yn cynnwys £4.6 biliwn o arian grant brys i awdurdodau lleol i fynd i'r afael â'r pwysau ar wasanaethau lleol a achoswyd gan y pandemig a thalu dros £1.1 biliwn trwy'r Gronfa Rheoli Heintiau i gynorthwyo darparwyr i atal a rheoli trosglwyddiad COVID-19.<sup>83</sup>
183. Mae'r Cynllun Gaeaf ar gyfer Gofal Cymdeithasol i Oedolion yn nodi'r camau y mae'r Llywodraeth yn eu cymryd i gefnogi darparwyr gofal i amddiffyn pobl mewn gofal, gan gynnwys y rhai ag anableddau dysgu, rhag COVID-19. Er enghraifft, mae staff cartrefi gofal bellach yn cael eu profi ddwywaith yr wythnos gyda phroffion llif unffordd cyflym yn ogystal â phrawf PCR wythnosol, ac mae PPE am ddim yn cael ei ddarparu i'r sector gofal cymdeithasol tan ddiwedd mis Mehefin, gyda'r cynnig hwn bellach yn cael ei ymestyn i ofalwyr di-dâl. Dros y gaeaf darparodd y Llywodraeth £120 miliwn o gyllid ychwanegol i helpu awdurdodau lleol i gynyddu lefelau staffio a £149 miliwn i gefnogi profion cyflym ar staff a hwyluso ymweliadau gan deulu a ffrindiau (cyn i'r cyfyngiadau cyfredol ddod i rym).<sup>84</sup> Bydd y Llywodraeth yn parhau i weithio'n agos gyda'r sector i'w gefnogi i amddiffyn staff, preswylwyr a gofalwyr rhag COVID-19. Mae llwyddiant y rhaglen frechu yn golygu bod 95% o breswylwyr cartrefi gofal i oedolion hŷn cymwys wedi cael eu brechu, sy'n cyfateb i 89% o'r holl breswylwyr mewn cartrefi gofal i oedolion hŷn. Gydag effaith y cyfyngiadau cyfredol a glynu wrth fesurau rheoli heintiau, mae nifer yr achosion mewn cartrefi gofal wedi bod yn gostwng yn gyson ers dechrau mis Ionawr.<sup>85</sup>
184. Er bod y brechlyn yn dod â gobaith ac amddiffyniad mawr ei angen, nes bod mwy yn hysbys am ei effaith ar drosglwyddiad, dylai pobl sydd angen gofal a'u gofalwyr barhau i gadw at yr holl fesurau rheoli heintiau sydd ar waith nawr. Gall y risgiau fod yn uwch gydag amrywiolion newydd ac amrywiolion sy'n dod i'r amlwg sy'n fwy trosglwyddadwy ac mae angen monitro effeithiolrwydd y brechlyn ar yr amrywiadau newydd hyn.
185. Fodd bynnag, mae'r Llywodraeth yn cydnabod bod ymweliadau gan anwyliad yn hanfodol ar gyfer lles preswylwyr cartrefi gofal o bob oed, a'u teuluoedd a'u cyfeillion, a dyna pam mae'r map trywydd yn cynnwys mwy o gyfleoedd i ymweld. O 8 Mawrth

<sup>83</sup> <https://www.gov.uk/government/publications/adult-social-care-coronavirus-covid-19-winter-plan-2020-to-2021/adult-social-care-our-covid-19-winter-plan-2020-to-2021>

<sup>84</sup> <https://www.gov.uk/government/news/social-care-to-receive-269-million-to-boost-staff-levels-and-testing>

<sup>85</sup> <https://www.gov.uk/government/statistics/national-flu-and-covid-19-surveillance-reports>

bydd pob preswilydd cartref gofal yn gallu enwebu rhywun a all ddod i mewn ar gyfer ymweliadau rheolaidd. Fodd bynnag, pan fydd y data'n dangos ei fod yn ddiogel, mae'r Llywodraeth eisiau mynd ymhellach a chaniatáu mwy o ymwelwyr. Ar Gam 2 o'r map trywydd bydd y Llywodraeth yn edrych yn ofalus ar effeithiolrwydd y brechlyn ar gyfer pobl sy'n byw mewn cartrefi gofal, yn ogystal â lefelau haint yn y gymuned leol, yn enwedig unrhyw amrywiolion newydd. Bydd y Llywodraeth yn gwneud penderfyniad bryd hynny ar ymestyn nifer yr ymwelwyr i ddau i bob preswilydd, fel ym mis Rhagfyr, ac yn nodi cynllun ar gyfer cam nesaf yr ymweliadau i bobl mewn gofal preswyl.

186. Yn ogystal â'r mesurau newydd hyn, dylai cartrefi gofal barhau i ganiatáu ymweliadau ag anwyliad eraill trwy drefniadau fel sgriniau sylweddol, podiau ymweld, ymweliadau y tu ôl i ffenestri neu ymweliadau yn yr awyr agored. Pe bai yna frigiad mewn cartref gofal, dylai'r cartref roi'r gorau i ymweliadau ar unwaith (ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol fel diwedd oes) i amddiffyn preswylwyr, staff ac ymwelwyr a allai fod yn agored i COVID-19. Cyhoeddir mwy o fanylion am y newidiadau hyn mewn canllawiau wedi'u diweddarau yn ystod wythnos 1 Mawrth.
187. Mae'r Llywodraeth hefyd yn cydnabod bod angen mwy o gefnogaeth ar rai preswylwyr. Efallai y bydd ar breswylwyr sydd, er enghraifft, gyda dementia datblygedig, anawsterau dysgu neu Awtistiaeth, angen rhywun dibynadwy penodol i gyflawni rhai tasgau gofal personol. Heb y gefnogaeth hon, gallai eu hiechyd fod mewn perygl o ddirywio'n gyflym iawn. Yn y math hwn o sefyllfa, bydd y Llywodraeth yn darparu cefnogaeth ychwanegol i'r ymwelwyr hynny, y mae eu hymweliad yn hanfodol i iechyd a lles uniongyrchol y preswilydd ac sy'n darparu gofal personol, fel cymorth gydag ymolchi a gwisgo neu fwyta'n dda. Gyda chytundeb y cartref gofal, bydd gan yr ymwelwyr hyn fynediad i'r un profion a PPE â staff cartrefi gofal fel y gallant chwarae'r rôl ofal bwysig hon. Cyhoeddir mwy o fanylion am y newidiadau hyn mewn canllawiau wedi'u diweddarau i gefnogi cartrefi gofal i hwyluso ymweliadau i breswylwyr a'u hanwyliad.
188. Yn ogystal, bydd rhagor o brofion yn cael eu darparu i hwyluso ymweliadau mwy diogel i breswylwyr yn lleoliadau Llety â Chymorth a Gofal Ychwanegol risg uchel. Mae'n dal yn wir y bydd llawer o breswylwyr mewn lleoliadau Llety â Chymorth a Gofal Ychwanegol yn gallu cael ymweliadau trwy ffurfio swigen gefnogaeth.
189. Mae'r Llywodraeth yn cydnabod y rôl hanfodol y mae gofalwyr di-dâl yn ei chwarae, yn enwedig yn ystod y cyfnod anodd hwn, ac mae'n cydnabod yr angen i grwpiau cymorth (gan gynnwys gwasanaethau dydd) barhau. Felly gall grwpiau trefnus o hyd at 15 o bobl barhau i gwrdd a bydd PPE am ddim yn parhau i fod ar gael trwy awdurdodau lleol neu fforymau cydnerth lleol i gefnogi staff sy'n gweithio mewn gwasanaethau dydd. Yn ogystal, mae'r Llywodraeth yn darparu profion rheolaidd ar gyfer staff mewn gwasanaethau dydd risg uchel i'w cefnogi i barhau i weithredu mor ddiogel â phosibl.

## GRWPIAU SY'N CAEL EU HEFFEITHIO YN ANGHYMESUR

190. Mae'r Llywodraeth yn cydnabod bod rhai grwpiau o fewn cymdeithas wedi teimlo effaith y pandemig yn fwy difrifol, ac y bydd cyfyngiadau a gofynion parhaus yn cwmpo'n anghyfartal. Mae grwpiau sydd wedi cael eu heffeithio'n anghymesur yn ystod y pandemig. Mae'r rhain yn cynnwys lleiafrifoedd ethnig, gyda marwolaethau yn ystod y don gyntaf ar gyfer dynion Du Affricanaidd, Pacistanaidd a Bangladeshaidd

4.5, 2.7 a 3.5 gwaith yn uwch yn y drefn honno na dynion Gwyn Prydeinig o'r un oed, a chyfraddau uchel o farwolaethau (4.8 a 4.1) ymhlith cymunedau Pacistanaidd a Bangladeshaidd yn ystod yr ail don.<sup>86</sup> Hefyd y rhai mewn galwedigaethau risg uchel fel gyrwyr taci<sup>87</sup> a gweithwyr gofal cymdeithasol a'r rhai sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig lle'r oedd cyfraddau marwolaethau yn y don gyntaf ar gyfer dynion a menywod yn fwy na dwbl y rhai yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig.<sup>88</sup> Yn ogystal, mae amcangyfrifon dangosol ar gyfer y rheini ag anableddau, yn awgrymu bod menywod mwy anabl 1.4 gwaith, dynion mwy anabl 1.1 gwaith, a dynion a menywod ag anabledd dysgu 1.7 gwaith yn fwy tebygol o farw o COVID-19 na phobl nad ydynt yn bobl anabl o'r un rhyw. Mae'r amcangyfrifon hyn yn ystyried ffactorau fel cyflyrau iechyd isorweddol ac amgylchiadau daearyddol ond hyd yma ni ellir nodi un ffactor i esbonio'r risgiau cynyddol. Ar draws pob un o'r grwpiau hyn, mae nifer o ffactorau economaidd-gymdeithasol isorweddol yn cyfrannu at gyfraddau achosion a marwolaeth uchel<sup>89</sup>.

191. Mae'r Llywodraeth wedi rhoi nifer o fesurau ar waith i liniaru effeithiau anghymesur. Wrth i'r Llywodraeth leddfu cyfyngiadau, bydd yn sicrhau bod y rhai sydd wedi cael eu taro waethaf gan COVID-19 yn cael eu hamddiffyn a'u cefnogi, a bod effeithiau anghyfartal COVID-19 yn parhau i gael sylw. Mae hyn yn cynnwys:
  - a. Cynyddu profion cymunedol mewn grwpiau yr effeithir arnynt yn anghymesur ac ar gyfer gweithwyr busnesau bach a phrofion gweithlu mewn galwedigaethau risg uwch.
  - b. Rhoi data brechlyn allweddol i awdurdodau lleol i'w helpu i wrthweithio cam-wybodaeth ynghylch brechlynnau mewn cymunedau. Mae cam-wybodaeth yn effeithio'n anghymesur ar rai grwpiau lleiafrifoedd ethnig. Bydd y Llywodraeth hefyd yn annog y sector gwirfoddol i gefnogi cyflwyno'r brechlyn ar lefel gymunedol.
  - c. Amddiffyn y rheini mewn lleoliadau sefydliadol risg uchel fel carchardai, lleoliadau preswyl ar gyfer ceiswyr lloches a chanolfannau cadw mewnfudo. Bydd y Llywodraeth yn ehangu gallu profi mewn carchardai, yn darparu arweiniad mewn ystod o ieithoedd i geiswyr lloches eu cefnogi i hunanynysu ac yn cyflwyno mesurau diogelwch mewn lleoliadau sefydliadol neu lety i bobl sy'n agored i niwed.
  - d. darparu cefnogaeth ychwanegol i'r rheini sy'n wynebu effeithiau anuniongyrchol COVID-19 gan gynnwys cefnogi gwasanaethau cam-drin domestig a diogelu, a myfyrwyr difreintiedig sy'n adfer ar ôl colli dysgu.
  - e. Sicrhau bod cefnogaeth gadarn ar gael i unigolion sy'n wynebu effeithiau anghymesur ar eu hiechyd meddwl a'u lles. Yn ychwanegol at y Cynllun Cymorth Lles ac Iechyd Meddwl ar gyfer COVID-19, a gyhoeddwyd y llynedd, bydd y

<sup>86</sup> Nafilyan et al, Ethnic differences in COVID-19 mortality during the first two waves of the Coronavirus Pandemic, February 2021

<sup>87</sup> SYG: Marwolaethau COVID-19 yn ôl sector swyddi, Awst 2020

<sup>88</sup> Iechyd Cyhoeddus Lloegr: Gwahaniaethau o ran risg a chanlyniadau COVID-19, Awst 2020

<sup>89</sup> SYG: Amcangyfrifon wedi'u diweddarau o farwolaethau'n gysylltiedig â choronafeirws (COVID-19) yn ôl statws anabledd, Chwefror 2021

Llywodraeth yn cyhoeddi Cynllun Gweithredu yn nodi mesurau pellach i ymateb i a lliniaru'r effeithiau ar iechyd meddwl ar draws y boblogaeth.

- f. Amddiffyn pobl sy'n cysgu allan. Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo cyllid hyd at 2022 i awdurdodau lleol amddiffyn pobl sy'n cysgu allan. Mae'r ffocws ar ddarparu cefnogaeth gynaliadwy hirdymor i awdurdodau lleol, trwy'r Fenter Cysgu Allan a'r Rhaglen Llety Cysgu Allan.
  - g. Cefnogi teuluoedd sy'n agored i niwed. Cyhoeddwyd Cynllun Grant Gaeaf Covid gwerth £170 miliwn ar 8 Tachwedd ac mae bellach yn cael ei ddarparu gan awdurdodau lleol i gefnogi teuluoedd sy'n agored i niwed sydd mewn angen y gaeaf hwn a thu hwnt.<sup>90</sup> Bydd hyn yn cael ei ymestyn tan ddiwedd gwyliau'r Pasg (16 Ebrill 2021). Bydd y Llywodraeth hon hefyd yn cefnogi teuluoedd â phlant anabl wrth i'r cyfyngiadau gael eu codi.
192. Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i fynd i'r afael â gordewdra a cydafiacheddau eraill sy'n peri risg ychwanegol ar gyfer canlyniadau difrifol mewn pobl â COVID-19. Lanswyd yr ymgyrch 'Gwell Iechyd' y llynedd i annog pobl i gofleidio ffordd iachach o fyw ac i golli pwysau os oes angen, gydag ystod o offer ac apiau sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn darparu cyngor a chefnogaeth.
193. Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i fynd i'r afael â goblygiadau tymor hwy COVID-19 i gymunedau sydd wedi cael effaith anghymesur, ac roedd rhai ohonynt eisoes dan anfantaes cyn y pandemig. Mae'r Llywodraeth yn tynnu ar wybodaeth ac arbenigedd gweithwyr meddygol proffesiynol a'r dystiolaeth orau sydd ar gael i ddatblygu a phrofi dulliau newydd o reoli lledaeniad y feirws er mwyn amddiffyn unigolion yr effeithir arnynt, cymunedau a'r GIG.

---

<sup>90</sup> <https://www.gov.uk/government/news/new-winter-package-to-provide-further-support-for-children-and-families>

## 6. Y TYMOR HIR

### Trosglwyddo o bandemig i endemig

194. Dros amser, mae gwyddonwyr yn disgwyl i COVID-19 ddod yn endemig, sy'n golygu y bydd y feirws yn cyrraedd lefel sefydlog, y bydd, gyda gobaith, modd ei rheoli. Efallai byddwn yn gweld ymchwyddiadau tymhorol. Nid yw gwyddonwyr yn gwybod eto sut na phryd y bydd y trawsnewid hwnnw'n digwydd.
195. Bydd brechlynnau yn allweddol i reoli'r pontio o gyflwr pandemig i endemig. Bydd therapiwteg a gwrthfeirysau yn dod yn gynyddol bwysig, ac yn cymryd lle y rhan fwyaf o ymyriadau anfferyllol dros y tymor hir.

### Byw gyda'r feirws

196. Fel rhai straeniau o fflw, mae COVID-19 yn salwch cymharol ysgafn i lawer o'r boblogaeth, ond mae'n fwy peryglus i grwpiau sy'n agored i niwed. Bydd y Llywodraeth yn sicrhau y gall y wlad fyw gyda'r feirws yn y tymor hwy heb orfodi cyfyngiadau sy'n arwain at gostau economaidd, cymdeithasol ac iechyd trwm. Bydd canlyniad y pedair rhaglen waith a nodir ym mhennod 3 (digwyddiadau mawr, Ardystiadau COVID, teithio rhyngwladol a chadw pellter cymdeithasol) yn llywio polisi'r Llywodraeth ar fyw gyda'r feirws.
197. Yn ogystal â rhaglen ail-frechu gynhwysfawr, a amlinellwyd ym mhennod 2, bydd y Llywodraeth hefyd yn defnyddio'r system Profi, Olrhain ac Ynysu i gadw'r feirws dan reolaeth. Mae hyn yn cynnwys profion asymptomatig rheolaidd mewn sectorau sydd â'r risg uchaf o drosglwyddo, ynghyd â phrofi yn y gweithle i helpu i amddiffyn gweithwyr rhag haint a chadw busnesau ar agor. Mae'r DU eisoes wedi cynyddu cynhyrchiant domestig o brofion llif unffordd. Fel yr amlinellwyd ym mhennod 2, mae'r Llywodraeth hefyd yn buddsoddi mewn cryfhau capasiti cynhyrchu brechlyn domestig ledled y DU gyfan.

### Adeiladu gwytnwch i bandemigau yn y dyfodol

198. Er mwyn adeiladu gwytnwch yn y system iechyd ar gyfer unrhyw bandemigau yn y dyfodol, mae'r Llywodraeth ar y trywydd iawn i sefydlu'r Sefydliad Cenedlaethol Diogelu Iechyd (NIHP) ym mis Ebrill 2021. Bydd y sefydliad newydd hwn yn gyfrifol am fonitro, adnabod a sicrhau parodrwydd ein cenedl i ymateb i beryglon iechyd cyhoeddus. Gan gyfuno galluoedd amddiffyn iechyd, Iechyd Cyhoeddus Lloegr â gwasanaeth Profi ac Olrhain y GIG, gan gynnwys y Cyd-ganolfan ar Fioddiogelwch (JBC) ledled y DU, ac adeiladu ar y profiadau o fynd i'r afael â COVID-19, bydd y Llywodraeth yn trosglwyddo staff a systemau i'r sefydliad newydd dros y misoedd



nesaf. Ar lefel leol, bydd awdurdodau lleol a Chyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd, gan weithio gydag Iechyd Cyhoeddus Lloegr, yn parhau i weithio i reoli achosion lleol gan ymgysylltu'n agos â'u cymunedau. Fe'u cefnogir gan y fframwaith rheoli achosion COVID-19 cenedlaethol, sy'n nodi sut mae partneriaid cenedlaethol a lleol yn gweithio gyda'r cyhoedd i atal, rheoli a chynnwys achosion.

199. Bydd y Llywodraeth hefyd yn parhau i sicrhau bod unrhyw gynlluniau ar gyfer pandemigau yn y dyfodol yn amlsector. Er bod y system iechyd a gofal cymdeithasol yn ganolog i ymateb i bandemig, mae'r holl Adrannau a phartneriaid yn hanfodol i ymateb a byddant yn parhau i wella gwytnwch ar gyfer unrhyw bandemigau yn y dyfodol.

## Arweinyddiaeth ryngwladol

200. Ar y llwyfan rhyngwladol, mae'r DU yn arwain ar ddull byd-eang o atal pandemigau yn y dyfodol. Yng Nghynulliad Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig ym mis Medi 2020, amlinellodd y Prif Weinidog Gynllun Pum Pwynt y DU gan ganolbwyntio ar:<sup>91</sup>
- Rhwydwaith byd-eang o hybiau ymchwil milheintiol i weld pandemigau newydd cyn iddynt ddechrau, trwy nodi pathogenau cyn iddynt neidio o anifeiliaid i fodau dynol;
  - Capasiti ymchwil a datblygu a gweithgynhyrchu cynyddol ar gyfer triniaethau a brechlynnau i sicrhau bod triniaethau sydd wedi'u profi yn barod i'w defnyddio yn erbyn bygythiadau sy'n dod i'r amlwg;
  - Systemau sganio gorwel a rhybuddio cynnar gwell sy'n gwneud y defnydd gorau o ddata a thechnoleg flaengar;
  - Protocolau a chanllawiau cryfach ar gyfer delio ag argyfyngau iechyd a chryfhau gallu i rannu tystiolaeth a dyfeisio canllawiau newydd yn ystod argyfwng; a
  - Lleihau'r rhwystrau masnach a wnaeth rwystro ein hymateb i COVID-19.
201. Eleni, bydd y DU yn defnyddio ei Llywyddiaeth G7 i arwain yr adferiad byd-eang o COVID-19, gan gynnwys galw am ddull newydd, byd-eang o fynd i'r afael â phandemigau gyda chydweithrediad rhyngwladol pellach ar ddosbarthu a chyllid ar gyfer brechlynnau, gan gryfhau gwytnwch y byd yn erbyn pandemigau yn y dyfodol.
202. Fel yr amlinellwyd ym Mhennod 2, mae iechyd pob gwlad yn dibynnu ar y byd cyfan yn cael mynediad at frechlynnau, therapiwteg a diagnosteg ddiogel ac effeithiol. Mae'r DU yn cefnogi ymdrechion rhyngwladol i ehangu mynediad at frechlynnau, therapiwteg a diagnosteg newydd ar gyfer COVID-19, ac i ddarparu mynediad teg i frechlynnau i bobl sy'n byw ledled y byd. Bydd y DU yn parhau i weithio'n agos gyda chyrrff byd-eang i sicrhau bod gwledydd sy'n datblygu yn gallu cyrchu brechlynnau, triniaethau a phroffion COVID-19, a bydd yn defnyddio ei llywyddiaeth G7 i annog gwledydd eraill i wneud yr un peth.

<sup>91</sup> <https://www.gov.uk/government/news/prime-minister-world-must-unite-to-defeat-covid-and-prevent-future-pandemics>









CCS0221065984

978-1-5286-2431-2